**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8148
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Ann Jones (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Angela Burns**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Rebecca Evans**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Lynne Neagle**
Llafur Cymru
Tor-faen



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

# Cynnwys


**Crynodeb o'r Argymhellion ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 9**

Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad ........ 9

Dull yr Ymchwiliad ........ 10

Ymgynghoriad Ysgrifenedig ........ 10

Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ........ 10

**2. Tystiolaeth sy'n berthnasol i Ymddygiad a Phresenoldeb ........ 11**

Effeithiolrwydd Strategaethau Presennol ........ 11

Barn y Pwyllgor: Effeithiolrwydd Strategaethau Presennol ........ 13

Hyfforddi a Datblygu Athrawon ........ 14

Barn y Pwyllgor: Hyfforddi a Datblygu Athrawon ........ 16

Rolau a Chyfrifoldebau ........ 17

Rôl Ysgolion ........ 17

Rôl Llywodraethwyr ........ 18

Barn y Pwyllgor: Rôl Llywodraethwyr ........ 20

Rôl y Consortia Rhanbarthol ........ 20

Barn y Pwyllgor: Rôl y Consortia Rhanbarthol ........ 21

Ymgysylltu â rhieni ........ 22

Plant o aelwydydd incwm isel ........ 23

Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion ........ 23

Barn y Pwyllgor: Plant o aelwydydd incwm isel ........ 24

Materion cyllido eraill ........ 25

Cyllidebau ysgol dirprwyedig ........ 25

Barn y Pwyllgor: Cyllid ........ 27

Ymyriadau cynnar ........ 28

Rhannu Arfer Da ........ 28

Barn y Pwyllgor: Arfer Da ........ 30

Y Cwricwlwm ........ 30

Barn y Pwyllgor: Y Cwricwlwm ........ 31
**3. Presenoldeb ........ 32**
Barn y Pwyllgor: Presenoldeb ........ 32
Bandio Ysgolion ........ 33
Beth a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am bresenoldeb ........ 34
Bwlio ........ 34
Barn y Pwyllgor: Bwlio ........ 35
Canllawiau ar absenoldebau yn ystod y tymor ysgol ........ 36
Defnyddio gwobrau ........ 36
Codau Llywodraeth Cymru ........ 37
Pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ........ 37
Barn y Pwyllgor: Pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ........ 39
Ymateb Diwrnod Cyntaf ........ 39
Barn y Pwyllgor: Ymateb Diwrnod Cyntaf ........ 40
Gwasanaeth Lles Addysg ........ 40
Barn y Pwyllgor: Gwasanaethau Lles Addysg ........ 41
Hysbysiadau Cosb Benodedig ........ 42
Barn y Pwyllgor: Hysbysiadau Cosb Benodedig ........ 42
**4. Ymddygiad ........ 44**
Ystadegau Gwaharddiadau ........ 44
Beth a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am ymddygiad ........ 45
Defnyddio Gwaharddiadau ........ 45
Gwaharddiadau Answyddogol / Anghyfreithlon a thynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol ........ 47
Tynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol ........ 49
Barn y Pwyllgor: Gwaharddiadau Answyddogol / Anghyfreithlon a thynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol ........ 50
Symudiadau wedi'u Rheoli ........ 50
Barn y Pwyllgor: Symudiadau wedi'u Rheoli ........ 51
Darpariaeth i ddisgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gan gynnwys mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) ........ 52

Addysg yn y Cartref ........ 53
Unedau Cyfeirio Disgyblion ........ 54
Barn y Pwyllgor: Darpariaeth EOTAS ........ 55
Nifer yr oriau y dylid eu darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd ........ 56
Barn y pwyllgor: Nifer yr oriau y dylid eu darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd ........ 57
Gwasanaethau Cynnal Ymddygiad ........ 57
Cwnsela mewn Ysgolion ........ 58
Cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ........ 59
Barn y Pwyllgor: Anghenion dysgu ychwanegol ........ 60
Diffyg Cefnogaeth ymhlith Rhieni i Gosbau ........ 60
Trefniadau Cydweithio ........ 61
Cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol ........ 61
Cysylltiadau â Mentrau eraill Llywodraeth Cymru ........ 64
Cysylltiadau â'r Trydydd Sector ........ 65
Barn y Pwyllgor: Cysylltiadau â'r Trydydd Sector ........ 66
Casgliad y Pwyllgor: Presenoldeb ac Ymddygiad ........ 66
**Atodiad A - Tystion ........ 68**
**Atodiad B – Ymatebion i'r Ymgynghoriad ........ 70**
**Atodiad C - Sefydliadau a gymerodd ran mewn Grwpiau Ffocws ........ 71**

## Crynodeb o'r Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Ymhellach at Gynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb diwygiedig 2011, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyffredinol genedlaethol ar bresenoldeb ac ymddygiad sy'n datblygu arfer da presennol ac a gaiff ei defnyddio i fonitro cynnydd yn rheolaidd. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar hyfforddiant rheoli ymddygiad yn seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon. Dylai modiwlau rheoli ymddygiad disgyblion sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod yn elfen graidd o ddatblygiad proffesiynol parhaus hefyd. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys y consortia rhanbarthol) i gynnal archwiliad o anghenion o fewn y gweithlu addysgu presennol a datblygu cynlluniau gweithredu i ddelio ag unrhyw fylchau mewn sgiliau. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob llywodraethwr yn cael hyfforddiant ar ddulliau effeithiol o wella presenoldeb disgyblion a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri problemau. Dylai hefyd gael hyfforddiant ar ei rôl yn hyn o beth a sut i ddeall a defnyddio data ysgolion i herio a helpu eu hysgolion i wella. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r consortia rhanbarthol gael rôl fwy penodol o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision y dull gweithredu hwn ymhellach gan gyfeirio'n benodol at yr argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r partneriaid angenrheidiol i ystyried hyfywedd pennu cyfrifoldeb ar lefel ranbarthol am ddatblygu gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad yn strategol, eu goruchwylio a'u cyllido. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi pwyslais ar ymyriadau cynnar gyda phlant a theuluoedd unigol. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio ac yn gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i

wella presenoldeb a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri problemau. Dylid ystyried y posibilrwydd y gallai'r consortia rhanbarthol chwarae rhan gryfach i brif ffrydio arfer da. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i ddefnyddio unrhyw gysylltiad rhwng cyfraddau bwlio ac absenoldeb mewn ysgolion. (Tudalen 35)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffocws clir ar gynnal a gwella cyfraddau presenoldeb yn ystod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Dylid ystyried y posibilrwydd y gallai'r consortia rhanbarthol chwarae rhan gryfach yn hyn o beth. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw 'ymatebion diwrnod cyntaf' i fynd i'r afael ag absenoldebau disgyblion er mwyn cyhoeddi canllawiau manylach arnynt. (Tudalen 40)

**Argymhelliad 11.** Ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae'r Pwyllgor yn argymell yn gryf bod y Gweinidog yn ystyried strategaethau amgen mwy cadarnhaol fel dewis arall i hysbysbiadau cosb benodedig cyn cyflwyno'r rheoliadau a'i fod yn cyhoeddi'r sail dystiolaeth dros weithredu_hysbysiadau cosb benodedig, os penderfynir bwrw ymlaen â hwy. (Tudalen 43)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried hyfywedd a manteision datblygu a chomisiynu darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) ar sail ranbarthol ac, o bosibl, ar sail Cymru gyfan. (Tudalen 55)

**Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am y cynnydd araf a thameidiog a wnaed i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb ac ymddygiad er i'r problemau hyn gael eu hystyried a'u dogfennu gan y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol dros nifer o flynyddoedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at yr Ymchwiliad hwn i fonitro cynnydd cyn diwedd y Tymor Cynulliad hwn.**

# 1. Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2012 i gynnal ymchwiliad i bresenoldeb ac ymddygiad.

2. Nod cyffredinol yr ymchwiliad oedd adolygu effeithiolrwydd polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb o fewn darpariaeth addysg i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.

**Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad**

3. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried y canlynol:

- Y strategaethau a'r cymorth sydd ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad a phresenoldeb, er enghraifft:
- Hyfforddi a datblygu athrawon;
- Darpariaeth i ddisgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion;
- Y defnydd o waharddiadau (gan gynnwys gwaharddiadau parhaol / cyfnod penodol / anghyfreithlon);
- Gwasanaethau Lles Addysg;
- Materion cyffredinol eraill fel ymgysylltiad rhieni; gwasanaethau cynnal ymddygiad; y cysylltiad rhwng y bwyd a fwyteir yn ystod y diwrnod ysgol ac ymddygiad.
- Cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o ran ymddygiad a phresenoldeb;
- Trefniadau cydweithio:
    - Cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, timau troseddau ieuenctid, yr heddlu, sefydliadau trydydd sector;
    - Cysylltiadau â mentrau perthnasol eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, mentrau trydydd sector.

4. Gwahoddwyd yr ymgyngoreion i gyflwyno unrhyw dystiolaeth arall a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r cylch gorchwyl uchod, yn eu barn hwy.

## Dull yr Ymchwiliad

### *Ymgynghoriad Ysgrifenedig*

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor gais am dystiolaeth ar 13 Rhagfyr 2012. Cafwyd pump ymateb ysgrifenedig. Mae'r cyflwyniadau ysgrifenedig i'w gweld yma[1].

6. Gwahoddwyd 16 o dystion i roi tystiolaeth lafar mewn chwe chyfarfod. Mae rhestr o dystion a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r ymchwiliad hwn i'w gweld yn Atodiad A a B.

### *Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc*

7. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cynhaliodd Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol gyfres o grwpiau ffocws i geisio barn plant a phobl ifanc ar bresenoldeb ac ymddygiad.

8. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ledled Cymru ac roeddent yn cynnwys disgyblion cynradd ac uwchradd, cynlluniau awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a phartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Roedd cymysgedd o leoliadau gwledig a threfol.

9. Roedd y grwpiau'n cynnwys plant a phobl ifanc a oedd yn llai tebygol o fod wedi derbyn addysg mewn lleoliad ffurfiol; y rhai a oedd â phrofiad o broblemau presenoldeb ac ymddygiad; y rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; a phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. Gweithiodd y Tîm Allgymorth â grwpiau ffydd, plant sy'n derbyn gofal, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, pobl ifanc o ardaloedd lle ceir amddifadedd a sefydliadau digartrefedd a rhieni.

10. Cynhaliwyd 19 o grwpiau ffocws gyda 17 o sefydliadau gwahanol, gan gynnwys SNAP Cymru; Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Caerdydd; a Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Cafwyd cyfanswm o 181 o gyfranogwyr rhwng naw oed a 23 oed. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws i'w gweld yn Atodiad C.

11. Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn ar dudalennau 34 a 45.

[1] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5218

# 2. Tystiolaeth sy'n berthnasol i Ymddygiad a Phresenoldeb

**Effeithiolrwydd Strategaethau Presennol**

12. Ers 2008, y canlynol yw'r datblygiadau cyffredinol mwyaf perthnasol sydd wedi ceisio gwella presenoldeb ac ymddygiad:

- Yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP) 2008[2]: Yr Athro Ken Reid oedd y Cadeirydd ac roedd yr adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion craidd a 73 o argymhellion ategol.
- Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb Llywodraeth Cymru 2009: Mewn ymateb i ACYP, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb ym mis Mawrth 2009.
- Mae Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb Diwygiedig Llywodraeth Cymru 2011: Mae Gwneud Gwahaniaeth i Ymddygiad a Phresenoldeb, Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-2013 yn cynnwys tri cham penodol: hyfforddi a datblygu; safonau ac atebolrwydd; a dull holistaidd o roi cefnogaeth i unigolion ac anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Ysgolion yn nodi bod y cynllun gweithredu ymddygiad a phresenoldeb diweddaraf a roddwyd ar waith wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu Fframwaith Dadansoddi i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol.

13. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, gwnaeth yr Athro Ken Reid amrywiaeth o bwyntiau'n ymwneud ag ACYP, gan gynnwys:

- "the speed of implementation, after a promising start, has been a major disappointment to me;"
- "the initial advantage which the Welsh Government benefitted from through the NBAR process has once again been lost;"
- "I would suggest that a second NBAR Review is now required and necessary both to update and to develop new strategies."

14. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd yr Athro Reid fod angen un strategaeth presenoldeb ac ymddygiad gydlynol ar gyfer Cymru yn hytrach na 22 o gynlluniau a strategaethau gwahanol ar lefel awdurdodau lleol.

---

[2] Adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, cyhoeddwyd yn 2008

15. Tynnodd yr undebau athrawon sylw at y nifer gynyddol o gynlluniau a mentrau a sefydlwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wrth gasglu eu tystiolaeth, dywedodd NAHT Cymru / ASCL:

> "What we found could not be described as a consistent, national plan of action as envisaged by Professor Reid however. Many school interventions are effective and sharing these would be beneficial; other policy decisions and local factors are less helpful."[3]

16. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd UCAC wrth y Pwyllgor:

> "Dros y blynyddoedd diwethaf mae sawl dogfen wedi ei chyhoeddi, sawl grŵp llywio wedi ei benodi, sawl peilot wedi ei sefydlu a'i weithredu yn sirol a chenedlaethol ar bresenoldeb. Mae llawer o'r dogfennau yn ailadroddus, yn llawn rhethreg ac heb lwyddo i adnabod nac i fynd i'r afael â sefyllfaoedd dydd i ddydd - a hynny mewn iaith bod dydd."[4]

17. Dywedodd David Evans, NUT Cymru:

> "The fact that there have been three separate plans over five years and the fact that we are here today discussing this again indicates that they are not working at this moment in time. Our members are not reporting back to us about any real improvement in behaviour. There have been some changes, there have been some better strategies and there have been some subtle differences, but, unfortunately, from our members' point of view, the changes have been subtle and more needs to be looked at."[5]

18. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd yr Athro Ken Reid ei bod yn bwysig sicrhau nad yw Cymru yn syrthio ar ôl gwledydd eraill o ran presenoldeb. Siaradodd â'r Pwyllgor am raglen i fuddsoddi miliynau o bunnoedd mewn addysg a gyhoeddwyd yn Efrog Newydd, a fyddai'n arwain at benodi bron 100 o bobl (yn cyfateb i 50 o swyddogion lles addysg a 50 o aelodau staff eraill) yn benodol i wella presenoldeb. Yna, dywedodd:

---

[3] Papur CYP(4)-04-13(p5) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NAHT Cymru ac ASCL Cymru, 31 Ionawr 2013
[4] Papur CYP(4)-04-13(p4) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan UCAC, 31 Ionawr 2013
[5] Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "In Europe, once again, as with PISA, Finland is right at the top. What are they doing right? First of all, they do not have the same numbers of disadvantaged pupils that we have. They do not have as many pupils from deprived backgrounds or pupils with special educational needs. Wales has a much harder job then many countries to catch up."[6]

**Barn y Pwyllgor: Effeithiolrwydd Strategaethau Presennol**

19. Mae'r Pwyllgor yn croesawu pwyslais Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb ac ymddygiad dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llawer o strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu ers adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Bresenoldeb ac Ymddygiad yn 2008, nid oes cynllun gweithredu cenedlaethol cyson ar waith. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod meysydd lle mae'n amlwg bod angen gwneud mwy, er enghraifft, sicrhau bod pob athro yn cael cymorth i ddelio'n effeithiol ag ymddygiad sy'n peri problemau drwy ei hyfforddiant cychwynnol a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y bydd y ffyrdd y mae'r dirwedd addysg yn newid, o ran rôl estynedig y consortia rhanbarthol a chyfraddau dirprwyo uwch ar gyfer cyllid ysgolion, yn cael effaith anochel ar sut y dylid llywio ymdrechion pellach i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Ceir rhagor o fanylion am yr holl faterion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

20. Cyfeirir at arfer da o ran mynd i'r afael â phresenoldeb gwael ac ymddygiad sy'n peri problemau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn hefyd. Roedd y Pwyllgor yn siomedig i glywed na chaiff y cyfryw arfer da ei rannu i'r graddau sydd ei angen. Rydym wedi clywed bod anghysondeb ar draws ac o fewn awdurdodau lleol a bod amrywiaeth sylweddol rhwng ysgolion. Er nad ydym yn argymell bod un ateb yn addas i bawb, mae'n amlwg nad yw arfer da y dangoswyd ei fod wedi arwain at ddeilliannau gwell i blant, fel y strategaeth sydd ar waith ledled Ceredigion, yn cael ei rannu'n ddigon eang. Nodwn hefyd fod amrywiaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran cyfraddau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol.[7] Yn y cyd-destun hwn, roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn nhystiolaeth yr Athro Reid, a gyfeiriodd at yr angen am un strategaeth presenoldeb ac ymddygiad gydlynol yng Nghymru yn hytrach na 22 o strategaethau gwahanol ar lefel awdurdodau lleol. Credwn y gallai'r pwyslais cynyddol ar y consortia rhanbarthol fod yn

---

[6] Cofnod y Trafodion [paragraff 38], 17 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[7] Datganiad Ystadegol Cyntaf, Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2011/12, Llywodraeth Cymru, 26 Chwefror 2013

ffordd o fynd i'r afael â rhai o'r anghysondebau presennol. Mae'r thema hon yn ymddangos droeon yn yr adroddiad hwn.

21. Wrth graffu ar effeithiolrwydd polisi Llywodraeth Cymru yn ystod yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried anghenion a phrofiadau plant unigol. Rydym yn awyddus i ddeall y rhesymau pam bod rhai plant yn ei chael hi'n anodd cynnal lefelau da o bresenoldeb a pham y gallai ymddygiad rhai plant yn yr ysgol beri iddynt gael eu gwahardd a hefyd effeithio ar fywydau disgyblion eraill ac athrawon. Mae ffocws ar les disgyblion yn hollbwysig, er enghraifft, wrth barhau i roi pwyslais ar ailintegreiddio'r disgyblion hynny a dderbyniodd eu haddysg y tu allan i'r ysgol am gyfnod yn ôl yn y brif ffrwd. Nodir ein barn ar agweddau eraill ar les disgyblion, fel pwysigrwydd gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad a'r angen i blant sydd wedi'u gwahardd gael yr addysg lawn y mae ganddynt hawl iddi, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Yng nghyd-destun lles disgyblion, lle na chaiff polisi Llywodraeth Cymru ei weithredu'n briodol, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am yr effaith a gaiff hynny ar blant unigol.

**Ymhellach at Gynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb diwygiedig 2011, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyffredinol genedlaethol ar bresenoldeb ac ymddygiad sy'n datblygu arfer da presennol ac a gaiff ei defnyddio i fonitro cynnydd yn rheolaidd.**

### Hyfforddi a Datblygu Athrawon

22. Roedd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd ym mis Mawrth 2011, Gwneud Gwahaniaeth i Ymddygiad a Phresenoldeb, Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-2013 yn cynnwys tri cham penodol a'r cyntaf ohonynt oedd hyfforddi a datblygu. Yn y cynllun hwn, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu:

- datblygu modiwlau hyfforddi ar reoli ymddygiad a phresenoldeb i'w cyflwyno trwy Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Hyfforddiant Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (o ddechrau 2012-13);
- ariannu hyfforddiant mewn rhaglenni rheoli ymddygiad a werthuswyd yn dda.

23. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Estyn:

> "Lack of staff commitment to improving behaviour and attendance is a key barrier to overcome in tackling issues of poverty and disadvantage. Staff training and development are needed to tackle

this issue. Most successful schools invest significantly in developing the skills of leaders, teachers, support staff and governors to improve outcomes for disadvantaged learners."[8]

24. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Athro Reid:

> "Initial teacher training is notoriously poor at providing new teachers with the skills they require for managing both behaviour and attendance. In fact, on school attendance, most trainees receive no induction in this area apart from any practical tips which they may pick up whilst on teaching practice. This is and always has been a weakness in existing ITT provision."[9]

25. Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "[…] some of the so-called 'information' provided to trainees on behaviour management is of dubious quality and usefulness. This is one of the longstanding weaknesses of ITT provision as most newly qualified teachers (NQT's) tend to learn 'on-the-job' through experience gained whilst in full-time employment."[10]

26. Dywedodd yr Athro Reid fod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer ACYP wedi canfod mai diffyg hyfforddiant ar reoli ymddygiad oedd yn peri'r pryder mwyaf i athrawon a'r rhai yn y proffesiynau gofalu a bod hyn yn wir i bawb o gynorthwywyr addysgu i benaethiaid.

27. Argymhellodd adroddiad ACYP:

> "Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru flaenoriaethu a chynyddu'n sylweddol yr arian am raglenni hyfforddi ar ymddygiad a phresenoldeb nid dim ond i staff mewn ysgolion ond hefyd i'r gweithwyr proffesiynol hynny a'r aelodau hynny o staff awdurdodau lleol sy'n ymwneud â hyrwyddo ymddygiadcadarnhaol a gwella presenoldeb, yn enwedig y staff lles addysg/gwaith cymdeithasol addysg."[11]

28. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Athro Reid:

---

8 Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Estyn, 21 Chwefror 2013

9 Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro Ken Reid, 17 Ionawr 2013

10 Ibid

11 Adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, cyhoeddwyd yn 2008

> “[…] progress on implementing the NBAR recommendation on providing appropriate training for all staff engaged in behavioural and school attendance work has been painfully slow and disappointing. In fact, almost five years later, most staff in Wales remain in a similar position to the one outlined in both the NBAR (2008) final and Interim (2007) Reports and in the SYCA (2007) evidence.”[12]

29. Mynegodd yr undebau athrawon bryder am hyfforddi a datblygu athrawon hefyd. Dywedodd NASUWT wrth y Pwyllgor nad oedd yn credu bod yr hyfforddiant y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei dderbyn yn eu paratoi i ddelio â'r problemau ymddygiad y gallent ddod ar eu traws, a theimlai ATL Cymru y dylid rhoi mwy o bwyslais ar reoli ymddygiad fel rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA).

30. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrth y Pwyllgor:

> “If teachers do not have the skills to deal with bad behaviour, I wonder what the point of initial teacher training is. I would assume that it should be dealt with right at the outset. That is why I am reviewing initial teacher training, to see if it is fit for purpose at the present time. Clearly, we have addressed behaviour within the programme of study for the Masters in educational practice that we have introduced, and we have invested additional resources in training in this area. We invested an additional £0.5 million and trained 3,600 teachers as a result.”[13]

### Barn y Pwyllgor: Hyfforddi a Datblygu Athrawon

31. Er gwaethaf buddsoddiad Llywodraeth Cymru hyd yma, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at bryderon nad yw rhai athrawon yn dal i gael digon o hyfforddiant a chymorth i ddelio'n effeithiol ag ymddygiad sy'n peri problemau. Ym mis Hydref 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon i benderfynu a yw ei gynnwys a'i ddulliau gweithredu presennol yn parhau i ddiwallu anghenion athrawon yng Nghymru. Roedd disgwyl i'r adolygiad gael ei gwblhau ym mis Mai 2013 a'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2013.[14]

---

[12] Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro Ken Reid, 17 Ionawr 2013

[13] Cofnod y Trafodion [paragraff 339], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[14] Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ateb i WAQ64580, 26 Ebrill 2013

32. Cred y Pwyllgor hefyd fod yn rhaid i bob ysgol gael systemau clir i ddelio ag ymddygiad sy'n peri problemau fel bod disgyblion a'u rhieni / gofalwyr yn gwybod yn glir beth yw canlyniadau eu hymddygiad. Gallai'r cyfryw systemau mewn ysgolion hefyd helpu i ddatblygu dulliau mwy cyson o weithredu ar draws y grwpiau blwyddyn. Gall athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac a gefnogir gan ddulliau gweithredu systematig o fewn ysgolion, wella profiad ysgol pob disgybl yn sylweddol. Yn yr un modd, hoffai'r Pwyllgor bwysleisio ei bod yn bwysig bod arweinwyr ysgolion yn cael hyfforddiant parhaus priodol fel y gallant gefnogi staff a chyflawni eu cyfrifoldebau a gwneud y newidiadau sydd eu hangen yn hyn o beth.

33. Creodd canfyddiadau gwaith ymchwil gan Brifysgol Caeredin gryn argraff ar y Pwyllgor hefyd gan iddo ganfod bod hyfforddiant i athrawon yn tueddu i ganolbwyntio ar ofynion cyfreithiol yn bennaf ac nad oedd yn rhoi pwyslais yn aml ar, er enghraifft, sut i atal gwaharddiadau neu sut i gynnwys pobl ifanc a'u teuluoedd mewn ffordd ddilys yn y broses. Canfu'r ymchwil hefyd, yn achos plant a oedd yn derbyn eu Haddysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), fod pryderon difrifol ynghylch hyfforddiant staff a'u dulliau rheoli ymddygiad; nad oes pwyslais a rennir neu y cytunir arno'n eang ar geisio atal problemau disgyblaeth; ac na roddwyd blaenoriaeth i geisio datblygu ethos neu amgylchedd cadarnhaol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar hyfforddiant rheoli ymddygiad yn seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon. Dylai modiwlau rheoli ymddygiad disgyblion sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod yn elfen graidd o ddatblygiad proffesiynol parhaus hefyd. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys y consortia rhanbarthol) i gynnal archwiliad o anghenion o fewn y gweithlu addysgu presennol a datblygu cynlluniau gweithredu i ddelio ag unrhyw fylchau mewn sgiliau.**

## Rolau a Chyfrifoldebau

### *Rôl Ysgolion*

34. Tynnodd adroddiad ACYP sylw at bwysigrwydd dull ysgol gyfan o weithredu, a ategir gan arweinyddiaeth gadarn.

35. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd at bwysigrwydd cael dull ysgol gyfan o weithredu a phwyslais ar les

disgyblion er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion. Dywedodd:

> "There is strong evidence to support the validity of a whole-school approach with a clear focus on pupil wellbeing where pupils feel listened to and valued as the best solution to the issues raised through the NBAR enquiry. There is a clear need to support schools in the adoption of evidenced whole-school approaches."[15]

36. Dywedodd yr Athro David Egan wrth y Pwyllgor:

> "Fundamentally, what the Sutton Trust points to is that our most effective schools have excellent leadership, and know exactly what to do in terms of the learning and teaching strategies to engage young people, particularly those who might easily become disengaged, and therefore their attendance and behaviour becomes a problem…" a
>
> "We have known for a long time that our most effective schools – the most outstanding schools – are also the places where you tend to get the highest levels of attendance and the best behaviour."[16]

***Rôl Llywodraethwyr***

37. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig yn datgan y byddai grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu rolau a chyfrifoldebau ym maes llywodraethu ysgolion[17]. Meddai:

> "Pwrpas y grŵp gorchwyl yw ystyried y fframwaith llywodraethu ysgolion presennol ac a yw'n addas at y diben. Yn benodol, bydd y grŵp yn ystyried y dull o rannu cyfrifoldebau rhwng gwahanol elfennau'r system, gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol, a ddylid diwygio hyn ac ailddosbarthu cyfrifoldebau, a natur a graddfa'r cymorth y dylid ei roi i gyrff llywodraethu ac eraill i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau."

38. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraethwyr Cymru:

---

[15] Papur CYP(4)-05-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 6 Chwefror 2013
[16] Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[17] Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, *Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau ym maes llywodraethu ysgolion*, Tachwedd 2012

> "In accordance with Section 88 of the Education and Inspections Act 2006 governing bodies must ensure 'that policies designed to promote good behaviour and discipline on the part of its pupils are pursued at the school'. In particular, it also requires governing bodies to:
>
> "(a) … make, and from time to time review, a written statement of general principles to which the head teacher is to have regard in determining any measures under section 89(1), and
>
> (b) where they consider it desirable that any particular measures should be so determined by the head teacher or that he should have regard to any particular matters—
>
> > (i) shall notify him of those measures or matters, and
> >
> > (ii) may give him such guidance as they consider appropriate."[18]

39. Aethant yn eu blaen i ddweud:

> "The National Behaviour and Attendance Review (NBAR) report published in 2008 comments that 'the governing body of a school should be actively engaged in the development of the school's behaviour policy...'"[19]

a gwnaethant roi enghreifftiau o rolau penodol y gall llywodraethwyr eu chwarae, fel y rhai sy'n gysylltiedig â sefydlu pwyllgorau i ystyried ymddygiad a phresenoldeb ac adolygu strategaethau a defnyddio llywodraethwyr cyswllt â chyfrifoldeb penodol am bresenoldeb ac ymddygiad neu gyfranogiad disgyblion.

40. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Hugh Pattrick wrth y Pwyllgor:

> "How governing bodies and schools address the challenge of attendance varies considerably from school to school."[20]

---

[18] Papur CYP(4)-09-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Lywodraethwyr Cymru, 13 Mawrth 2013
[19] Ibid
[20] Cofnod y Trafodion [paragraff 114], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Barn y Pwyllgor: Rôl Llywodraethwyr**

41. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr amrywiaeth eang o rolau a chyfrifoldebau sydd gan lywodraethwyr. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ddatblygiadau eraill yn yr adolygiad o lywodraethu ysgolion ac rydym yn disgwyl y bydd y Gweinidog, wrth ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol, yn adolygu'n ofalus ble y gellir cryfhau'r rôl y mae llywodraethwyr yn ei chwarae i godi cyfraddau presenoldeb a chefnogi dull ysgol gyfan o wella ymddygiad disgyblion. Nodwn fod ymchwil Prifysgol Caeredin yn datgan 'training for governors and particularly for members of pupil discipline committees should ensure they understand equality issues, children's rights, the social context of exclusion and strategies to avoid exclusion'. Nodwn hefyd i Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12 ganfod 'bod angen i lywodraethwyr wella'u harbenigedd a bod yn fwy heriol'. Yn ogystal, er bod llawer o lywodraethwyr yn defnyddio data perfformiad, nid yw llywodraethwyr mewn tair o bob deg ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio'r ysgol o safbwynt y safonau y mae'n eu cyflawni.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob llywodraethwr yn cael hyfforddiant ar ddulliau effeithiol o wella presenoldeb disgyblion a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri problemau. Dylai hefyd gael hyfforddiant ar ei rôl yn hyn o beth a sut i ddeall a defnyddio data ysgolion i herio a helpu eu hysgolion i wella.**

***Rôl y Consortia Rhanbarthol***

42. Ar 18 Chwefror 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adroddiad ar benderfyniad: *Funding to deliver improvements in school attendance*[21]. Dywedwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy roi arian grant iddynt fesul consortia i'w ddefnyddio yn ystod blynyddoedd academaidd 2012/13 a 2013/14 ar weithgarwch a dargedir i wella presenoldeb mewn ysgolion.

43. Yn yr adroddiad ar benderfyniad, dywedodd y Gweinidog:

> "Over the past 18 months the main work on attendance and behaviour has focused on the development of an Attendance and Behaviour Analysis Framework for use by local authorities. The Framework sets out a standardised approach to attendance and

[21] Adroddiad ar Benderfyniad Llywodraeth Cymru, *Funding to deliver improvements in school attendance*, Chwefror 2013

behaviour data analysis and is intended to identify systematic problems in schools and local authorities. The analysis provided to local authorities contains a 'traffic light' assessment of their performance when compared with other schools and authorities in Wales."

44. Mewn erthygl newyddion gan Lywodraeth Cymru[22] ar 27 Chwefror 2013, dywedodd y Gweinidog y byddai £800,000 ar gael yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol a'r flwyddyn nesaf. Byddai'r arian grant newydd ar gael dros ddwy flwyddyn ariannol, gyda £200,000 i'w rannu rhwng y pedwar consortiwm yn 2012/13 a £600,000 yn 2013/14. Bydd yn rhaid i'r consortia gyflwyno cynigion â chostau i Lywodraeth Cymru, gan amlinellu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gwelliannau hirdymor, parhaus o ran presenoldeb mewn ysgolion.

45. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

> "Hwn fydd y cyfle cyntaf i'r consortia gydweithio'n uniongyrchol ar bresenoldeb. Yn hanesyddol, ymdriniwyd â'r mater ar lefel awdurdodau lleol."[23]

46. Ar 18 Mehefin 2013, gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ynghylch 'Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol' a lansiodd ymgynghoriad 12 wythnos. Ymhlith yr opsiynau y gofynnir am sylwadau arnynt mae cael gwared ar draean o wasanaethau addysg yr awdurdodau lleol erbyn mis Ebrill 2014 a chryfhau rôl y consortia rhanbarthol mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys gwella ysgolion. Gallai'r cynigion yn ymgynghoriad y Gweinidog gael effaith ar yr argymhellion rydym wedi'u gwneud o ran presenoldeb ac ymddygiad, ond mae'n rhy gynnar i ddweud ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

### Barn y Pwyllgor: Rôl y Consortia Rhanbarthol

47. Mae'r Pwyllgor yn glir bod y dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn dangos bod angen dull mwy cyson o weithredu ar draws ysgolion ac awdurdodau o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Mae angen rhoi cryn bwyslais hefyd ar sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn gwybod beth sy'n llwyddo i wella presenoldeb ac ymddygiad. Mae'n siomedig, unwaith eto, i'r Pwyllgor glywed nad yw arfer da yn cael ei rannu i'r graddau sydd ei angen.

---

[22] Datganiad Newyddion gan Lywodraeth Cymru: *Cronfa newydd gwerth £800,000 i wella presenoldeb ysgolion*, 27 Chwefror 2013

[23] Papur CYP(4)-09-13(p4) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 13 Mawrth 2013

O ran presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, efallai mai'r consortia rhanbarthol yw'r cyfryngau mwyaf priodol i gyflawni'r newid hwn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r consortia rhanbarthol gael rôl fwy penodol o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision y dull gweithredu hwn ymhellach gan gyfeirio'n benodol at yr argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn.**

**Ymgysylltu â rhieni**

48. Tynnodd llawer o'r undebau athrawon sylw at anawsterau o ran ymgysylltu â rhieni. Yn ei dystiolaeth, dywedodd NUT Cymru fod lleiafrif bach ond cynyddol o rieni nad ydynt yn rhannu gwerthoedd yr ysgol ac sy'n anfodlon i'w cefnogi. Dywedodd ATL Cymru fod ei aelodau wedi nodi lefelau amrywiol o ymgysylltiad ymhlith rhieni a chymorth o ran materion disgyblu a nododd "such attitudes are not confined by any means to schools in more deprived areas: some articulate and well educated parents can make no secret for their disdain for certain members of staff, or their personal assessment of matters of school dress or other codes."

49. Yn ei dystiolaeth, tynnodd yr Athro David Egan sylw at ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Achub y Plant a awgrymodd y gellid gwneud llawer mwy i sicrhau bod ysgolion yn gweithio'n agosach gyda rhieni, teuluoedd a chymunedau i fynd i'r afael â phresenoldeb, ymddygiad a chyflawniad. Dywedodd:

> "[...] it has to be an attitude that comes, first and foremost, from the school: that parents and families are important, and that wanting to engage parents is absolutely critical to the success of the school..."[24]
> a,
>
> "All the research shows that we do not have all these feckless parents out there in our most disadvantaged communities who do not care about their children and do not care about education. That is an urban myth. The evidence is clear that those communities and those parents care deeply about their children and their education. Whether they are always engaged sufficiently in the process [...] is another matter."[25]

[24] Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[25] Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Plant o aelwydydd incwm isel**

50. Tynnodd nifer o dystion sylw at y cysylltiad rhwng presenoldeb, ymddygiad ac amddifadedd. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dadleuodd Estyn mai tlodi ac anfantais sy'n aml wrth wraidd y problemau presenoldeb ac ymddygiad mwy difrifol a welir yn ein hysgolion ac yn y system addysg yn fwy cyffredinol. Ategir y farn hon gan yr Athro David Egan, a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

> "There is a clear pattern when you look at free school meal students. It picks up in primary and becomes really prevalent in secondary; often, problems around behaviour, exclusion and attendance are particularly concentrated within those groups."[26]

51. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yntau, anogodd ATL Cymru y Pwyllgor i ystyried yn ddifrifol y cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau addysgol gwael.

***Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion***

52. Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yw prif ffynonellau Llywodraeth Cymru o roi cymorth ariannol ar gyfer ei thair blaenoriaeth genedlaethol o ran ysgolion:

- gwella safonau llythrennedd;
- gwella safonau rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

53. Awgrymodd yr Athro David Egan fod y grant effeithiolrwydd ysgolion a'r grant amddifadedd disgyblion yn rhoi cyfleoedd i ysgolion gydweithio'n agosach â'u cymunedau.

54. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd NAHT Cymru/ASCL Cymru hefyd:

> "Members report that the pupil deprivation grant (PDG) and the school effectiveness grant (SEG) have been a particularly important contributor to increased attendance rates. As Professor Ken Reid points out, absenteeism affects pupils from more disadvantaged backgrounds disproportionately; the pupil deprivation grant is of course specifically targeted at this group of pupils. One school whose percentage of pupils eligible for free school meals is nearly 50% has reported a dramatic improvement (2011/2012: 88.1%; 2012/2013: 93.2%) in attendance figures, a drop in exclusion rates

[26] Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> and an overall improvement in behaviour. The school used the PDG and SEG to employ additional support staff to implement intervention strategies for literacy, numeracy and emotional / nurture issues; some of the funding has been used to buy resources to run enriched curriculum and after school activities."[27]

55. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor bryderon fod rhai o'r grantiau amddifadedd disgyblion hyn yn cael eu gwario ar broblemau mwy cyffredinol yn hytrach na'u targedu at blant o gefndiroedd difreintiedig. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

> "We are completing, if I remember rightly, the first year of the pupil deprivation grant in terms of the financial year. So, it is still relatively early to track progress in the use of that money. I do not think that we have a comprehensive survey of the way in which that has been undertaken yet. Clearly, we have expectations of local authorities in terms of the way that that money is used and we will want to review that; if we find evidence, we may well need to target it or to tighten the guidance. In respect of the evidence that you have had from the unions of successful practice, that is good to hear and it may be that we will want to incorporate that in future guidance."[28]

56. Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar y Grant Amddifadedd Disgyblion (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013) yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod ysgolion yn nodi y bydd eu cynlluniau gwariant yn adlewyrchu'r disgwyliad bod y Grantiau Amddifadedd Disgyblion yn cael eu defnyddio ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi disgyblion o ardaloedd difreintiedig ac nid camau mwy cyffredinol, y gellid eu hystyried o dan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Barn y Pwyllgor: Plant o aelwydydd incwm isel**

57. Mae angen lefelau presenoldeb uchel ar ddisgyblion er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial. At hynny, mae angen targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn gwella deilliannau i ddisgyblion o aelwydydd incwm isel. Ar 21 Mehefin 2013, lansiodd y Pwyllgor hwn ymgynghoriad ar effeithiolrwydd polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru i liniaru'r cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau addysgol. Rhagwelwn y byddwn yn derbyn mwy o dystiolaeth ar y cysylltiad rhwng tlodi

---

[27] Papur CYP(4)-04-13(p5) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NAHT Cymru ac ASCL Cymru, 31 Ionawr 2013
[28] Cofnod y Trafodion [paragraff 265], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

a phresenoldeb ac ymddygiad yn ystod yr ymchwiliad ac y byddwn hefyd yn ystyried y materion sy'n ymwneud â'r GAD ymhellach.

## Materion cyllido eraill

58. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr undebau athrawon a phrifathrawon fod rhai o'r prosiectau yr ystyriant eu bod yn enghreifftiau o arfer da o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad yn rhai na ellir eu hatgynhyrchu ac y gallant fod yn anghynaliadwy oherwydd cânt eu hariannu drwy grantiau a roddir am amser cyfyngedig.

59. Dywedodd Rolant Wynne, UCAC, wrth y Pwyllgor:

> "Mae llawer o brosiectau wedi cael eu rhoi ar waith dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn pocedi bach. Rydym wedi canfod bod adnoddau'r awdurdodau efallai wedi cael eu canolbwyntio ar y prosiectau hynny ar draul yr ysgolion yn gyffredinol. Mae cynlluniau llwyddiannus wedi cael eu rhoi ar waith, er enghraifft ffyrdd amlasiantaethol o weithio, ond mae'r mewnbwn amlasiantaethol mewn ysgolion eraill wedi dioddef yn sgîl hynny. Yn ogystal, mae llawer o gynlluniau ar waith, ond nid ydynt yn gynaliadwy. Felly, er bod yr ystadegau a'r adroddiadau'n dweud bod y gwaith amlasiantaethol yn arwain at welliant arwyddocaol o ran presenoldeb ac, efallai, ymddygiad, y gwirionedd yw nad yw'r adnoddau ar gael i gynnal gwasanaeth ar yr un lefel ar draws yr ysgolion, ac ni chewch newid yn yr ystadegau cenedlaethol heb fod yr un gwasanaeth yn cael ei ddarparu."[29]

60. Tra dywedodd Caroline Rawson, SNAP Cymru, wrth y Pwyllgor:

> "[…] very often, schools feel that they do not have enough money to put in the additional time and support that is required for a challenging young person."[30]

### *Cyllidebau ysgol dirprwyedig*

61. Yn 2010, mewn ymateb i'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC):

[29] Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[30] Cofnod y Trafodion [paragraff 268], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "local authorities have agreed to increase school funding delegation rates from the current Wales average of 75% to 80% with the intention of reaching 85% within 4 years."

62. Er nad oedd y Gweinidog wedi pennu'r targed penodol o 85%, yn ôl y wasg ar y pryd roedd y Gweinidog yn falch ag ymateb CLlLC a dywedodd:

> "It's the start, I hope, of getting more money to the frontline in Wales."

63. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan sawl tyst am effaith y newid i gyllidebau dirprwyedig ar allu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth canolog, gan gynnwys darpariaeth Swyddogion Lles Addysg.

64. Dywedodd Dinas a Sir Abertawe wrth y Pwyllgor bod symud adnoddau i ysgolion yn effeithio ar allu'r awdurdod i ariannu gwasanaethau cymorth fel gwasanaethau lles a goruchwylio gwaharddiadau a derbyniadau. Dywedodd fod gallu'r awdurdod lleol i ddelio â phresenoldeb ac ymddygiad o dan fygythiad ac o dan bwysau. Er bod Cyngor Ceredigion wedi dweud bod yr awdurdod wedi cynnwys llinellau penodol mewn cyllidebau ysgolion ar gyfer unedau encil a hafan ym mhob ysgol uwchradd, gallai fod yn anodd iawn i awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau am fod hawl gan ysgolion i reoli eu cyllidebau fel y mynnant.

65. Cododd nifer o undebau athrawon bryderon am gyllidebau dirprwyedig hefyd. Dywedodd Hugh Davies, NAHT Cymru:

> "[…] another thing that we face at the moment is that, with increased delegation of funding to schools, and after the school funding guarantee ends in 2015, the budgets for education are likely to be hit quite severely along with other council services across Wales."[31]

66. Awgrymodd hefyd, er ei bod yn ymddangos bod ysgolion bellach yn cael mwy o gyllid dirprwyedig, y gwir amdani oedd bod gwasanaethau craidd yn cael eu cwtogi a bod ysgolion yn gorfod eu prynu yn lle hynny, a hynny weithiau am gost uwch. Felly roedd y cyllid dirprwyedig uwch yn aml yn dwyllodrus.

67. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

> "People are contradictory, are they not? Everybody wants more money to go into schools, and what I have done over the last few years is

[31] Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

direct more money into schools and force local authorities to give more of their money to schools. This has been a consistent demand year on year. I, as a Minister, have taken that forward and found a mechanism for doing that, first, by getting an agreement from the WLGA to move to 80% by September 2012, and now 85% of budgets by September 2014. I guess, in a time of austerity, it is inevitable that you will get some push-back on that from local authorities."[32]

"There is a valid underpinning issue about what can be done in some of these areas at a school level, as distinct from, say, a consortium level, or even a cluster level. It is probably right that there are certain services that can only be provided collectively if they have the necessary scale of activity. However, people have to be sensible about this and they have to work out what works in their areas. It might be that, from within the delegated moneys, schools decide to buy back services from local authorities and there is a trade-off there. What we are trying to do, however, is empower the schools with the resource, so that they can ensure that they get services that are fit for purpose; not services that are just provided but do not actually meet the needs of the school."[33]

**Barn y Pwyllgor: Cyllid**

68. Pryder i'r Pwyllgor yw clywed tystiolaeth mai un o ganlyniadau dirprwyo mwy o gyllid i ysgolion yw'r effaith ar allu awdurdodau i ariannu gwasanaethau cymorth fel gwasanaethau lles a goruchwylio gwaharddiadau. Yng nghyd-destun dirprwyo mwy o gyllid i ysgolion, rhagwelwn oni bai bod arweinwyr ysgolion yn cael eu cyfarwyddo i gomisiynu a chyllido gwasanaethau o ansawdd i gefnogi staff a disgyblion o ran ymddygiad a phresenoldeb, mae perygl sylweddol na chaiff y cyfryw wasanaethau eu darparu. Cred y Pwyllgor yn glir bod gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad a gaiff eu cyllido'n ddigonol yn hanfodol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nodau o leihau'r bwlch cyrhaeddiad i blant o aelwydydd incwm isel oni bai y gall y cyfryw wasanaethau ddarparu cymorth pan fo angen.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r partneriaid angenrheidiol i ystyried hyfywedd pennu cyfrifoldeb ar lefel ranbarthol am ddatblygu gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad yn strategol, eu goruchwylio a'u cyllido.**

[32] Cofnod y Trafodion [paragraff 260], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[33] Cofnod y Trafodion [paragraff 261], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Ymyriadau cynnar

69. Mae llawer o'r dystiolaeth wedi pwysleisio'r angen am ymyriadau cynnar gyda phlant a theuluoedd unigol wrth ddelio ag unrhyw ddirywiad mewn lefelau presenoldeb ac ymddygiad. Tynnodd yr Athro Ken Reid sylw at hyn fel un o brif ganfyddiadau ACYP. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "[…] we have to prevent and address the particular issues, not just deal with them when they get to the more significant end of the problems when pupils are aged 14, 15 and 16."[34]

70. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd YMCA Cymru fod ymyriadau cynnar yn gost-effeithiol i'r plentyn unigol a hefyd o ran lleihau nifer y bobl a allai fod heb waith yn y dyfodol a chostau delio â phobl ifanc drwy'r system cyfiawnder troseddol, er enghraifft.

71. Er mwyn gwella presenoldeb plant o oedran ysgol gorfodol, dywedodd NUT Cymru wrthym fod angen gwneud y gwaith cyn i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol, drwy gylchoedd chwarae, meithrinfeydd, clinigau ymwelwyr iechyd, gweithwyr chwarae lleol ac athrawon a gyflogir gan awdurdodau lleol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ysgol ac addysg.

72. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn fodlon bod dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o bwyslais ar ymyrryd yn gynnar, ond dywedodd mai mater arall oedd pa un a oedd awdurdodau lleol yn gwneud hynny.[35]

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi pwyslais ar ymyriadau cynnar gyda phlant a theuluoedd unigol.**

## Rhannu Arfer Da

73. Clywodd y Pwyllgor lawer o enghreifftiau o arfer da yn ystod yr ymchwiliad. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ceredigion:

> "Mae Awdurdod Lleol Ceredigion wedi cyllido sefydlu canolfannau Hafan ac Encil ym mhob ysgol uwchradd. Mae'r rhain yn effeithiol iawn o ran cynnal a chefnogi disgyblion sy'n teimlo'n agored i niwed, y rhai sy'n colli diddordeb yn eu haddysg ac sydd mewn perygl o gael eu heithrio neu sy'n agored i niwed oherwydd problemau teuluol neu

[34] Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 17 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[35] Cofnod y Trafodion [paragraff 242], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

gymdeithasol. Maen nhw'n cynnig rhaglenni addysg a chymorth sydd wedi cael eu teilwra i fodloni anghenion disgyblion sydd angen cymorth i wella/gefnogi eu dysgu, eu hymddygiad, eu presenoldeb neu eu hagwedd tuag at addysg."[36]

74. Tra yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yntau, tynnodd y Comisiynydd Plant sylw at enghreifftiau o ysgolion yr oedd wedi ymweld â hwy, gan gynnwys ysgol lle roedd lles emosiynol yn flaenoriaeth ac ysgol a oedd wedi datblygu system ysgol gyfan o ran Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL).

75. Fodd bynnag, ymddengys nad oedd yr arfer da hwn yn cael ei rannu ledled Cymru. Dywedodd Ann Keane, Estyn, wrth y Pwyllgor:

> "We know what good practice looks like in literacy and in relation to poverty, but the issue is how we ensure that other schools roll out that good practice. It is, in part, a matter of commitment and accepting that moral imperative, but it is also a matter of joining up initiatives and ensuring the regional consortia and school improvement and education welfare officers are on board in delivering that. That requires some sort of strategic approach at a national level."[37]

> "Hoffwn weld partneriaethau rhwng ysgolion, yn ogystal ag isadeiledd sy'n cynnal partneriaethau er mwyn rhannu arfer da. Mae hyn braidd yn ad hoc ar hyn o bryd, ac mae angen mwy o bartneriaethau a mwy o gydsymud rhwng ysgolion, er mwyn rhannu arfer da."[38]

76. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

> "What I am not clear about is why local authorities have been unable to learn from the best practice that is already out there. That seems to me an extraordinary deficiency. That is their responsibility. It is the responsibility of directors of education and directors of children's services to get this right. The evidence that comes to us is that they are not."[39]

---

[36] Papur CYP(4)-07-13(p2) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Sir Ceredigion, 27 Chwefror 2013
[37] Cofnod y Trafodion [paragraff 155], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[38] Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[39] Cofnod y Trafodion [paragraff 249], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Barn y Pwyllgor: Arfer Da**

77. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn siomedig, unwaith eto, i glywed nad yw arfer da yn cael ei rannu i'r graddau sydd ei angen. Gall y consortia rhanbarthol chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod ysgolion, Cyfarwyddwyr Addysg ac awdurdodau lleol yn eu rhanbarth yn deall arfer da a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn llawn.

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio ac yn gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella presenoldeb a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri problemau. Dylid ystyried y posibilrwydd y gallai'r consortia rhanbarthol chwarae rhan gryfach i brif ffrydio arfer da.**

**Y Cwricwlwm**

78. Yn ystod gwaith y Tîm Allgymorth gyda phlant a phobl ifanc, tynnodd sawl grŵp sylw at thema gyffredin yn ymwneud â gwersi a gwaith ysgol. Cawsom dystiolaeth gan rai plant a phobl ifanc fod gwersi yn ddiflas a bod y gwaith yn rhy anodd. Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn beth y dylid ei wneud i helpu rhagor o blant i fynd i'r ysgol, cyfeiriodd y rhan fwyaf at wersi ysgol ac awgrymodd y rhan fwyaf o'r grwpiau y dylai gwersi fod yn fwy difyr neu fywiog. Dywedodd grwpiau hefyd y dylid cael mwy o wersi ymarferol a mwy o weithgareddau y tu allan i dir yr ysgol.

79. Cytunodd Rex Phillips, NASUWT, y gallai addysg awyr agored chwarae rhan bwysig i wella presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion prif ffrwd. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "As a teacher who meets ex-pupils, who, perhaps, were not very well-behaved when they were in school, what they do remember are the experiences that they had when they went to outdoor study centres and the challenges that they faced in that sort of environment. Regrettably, we saw the demise of outdoor study centres across Wales."[40]

80. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraethwyr Cymru:

> "Curriculum and teaching and learning issues for pupils are very important in tackling behaviour and attendance concerns. Pupils who are performing well are less likely to be absent or misbehave. The

[40] Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

balance of responses in relation to behaviour and attendance should be about pupils being successful and therefore being rewarded for their compliance.

If there is too much national and local emphasis on pupils' and schools' achievements at key academic benchmarks which, by definition, all learners may not be able to achieve; this could potentially distance some learners. The curriculum, particularly, but not only, at 14-19 needs to offer learners the opportunity to engage fully and to achieve their potential, via a variety of subject choices, both academic and vocational."[41]

81. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

"I do not apologise for challenging work in schools, but, clearly, I do not want lessons to be boring…"[42]

82. Ac aeth yn ei flaen i nodi:

"[…] if young people have the appropriate literacy and numeracy skills for their age—and most of them are capable of that—then that will help in terms of their engagement with the curriculum further downfield, and it will have an impact on attendance and behaviour."[43]

**Barn y Pwyllgor: Y Cwricwlwm**

83. Mae'n amlwg ei bod yn fuddiol i ysgolion wrando ar safbwyntiau plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt (pan fo hynny'n bosibl). Yn eu tro, mae disgyblion yn fwy tebygol o fynd i'r ysgol ac ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol yno.

84. Rhagwelwn y bydd y Gweinidog yn ceisio barn plant a phobl ifanc yn ystod yr adolygiad sydd i ddod o'r cwricwlwm cenedlaethol. Rhaid i ysgolion hefyd barhau i wrando ar farn pob disgybl drwy systemau fel cynghorau ysgol. Pan fo angen, rhaid i ysgolion hefyd geisio dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu ag amrywiaeth eang o ddisgyblion ynglŷn â'r ffordd orau o'u hysgogi i ddysgu.

---

[41] Papur CYP(4)-09-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Lywodraethwyr Cymru, 13 Mawrth 2013
[42] Cofnod y Trafodion [paragraff 238], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[43] Cofnod y Trafodion [paragraff 310], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# 3. Presenoldeb

85. Ar y cyfan bu lefelau absenoldeb yn sefydlog rhwng 2006/07 a 2010/11 gan ostwng 0.5% yn 2011/12. Bu absenoldebau anawdurdodedig yn sefydlog rhwng 0.6 a 1.0% o sesiynau rhwng 2002/03.

86. Dangosodd yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd ar absenoldeb fod y gyfradd absenoldeb cyffredinol o ysgolion cynradd a gynhelir, yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn 2011/2012, 1.5% yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr, tra bod cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig yr un peth[44]. Ni chyhoeddir ystadegau cymharol ar gyfer absenoldeb o ysgolion uwchradd a gynhelir.

87. Dywedodd Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, Estyn, wrth y Pwyllgor:

> "Y llynedd, yr oedd gan un o bob tair ysgol uwchradd ac un o bob chwe ysgol gynradd ganrannau presenoldeb anfoddhaol. Os edrychwch ar ffigurau Lloegr, fe welwch ein bod yn dal i fod ar ei hôl hi o ran absenoldeb yn y sector cynradd a'r sector uwchradd. Felly, er bod y tueddiadau ar i fyny, nid ydym yn fodlon ar le'r ydym o ran presenoldeb."[45]

88. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Addysg:

> "Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd bellach ar eu lefelau uchaf ers i Lywodraeth Cymru ddechrau casglu'r data am y tro cyntaf."[46]

**Barn y Pwyllgor: Presenoldeb**

89. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella. Mae'r Pwyllgor yn adleisio barn y Prif Arolygydd Ysgolion, Ann Keane, sef er bod y tueddiadau am i fyny, mae angen gwneud mwy.

---

[44] Ystadegau Llywodraeth Cymru, *Absenteeism from Primary Schools 2011/2012*, 22 Ionawr 2013
[45] Cofnod y Trafodion [paragraff 200], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[46] Papur CYP(4)-09-13(p4) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 13 Mawrth 2013

**Bandio Ysgolion**

90. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae'n amlwg bod cynnwys data presenoldeb fel rhan o'r system bandio ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol. Yn 2011/12, gwellodd y gyfradd bresenoldeb ar gyfer ysgolion uwchradd 0.8 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r gwelliant unigol mwyaf a welwyd flwyddyn ar ôl blwyddyn ers saith mlynedd."[47]

91. Mae llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu bod cynnwys presenoldeb fel rhan o'r system bandio ysgolion wedi ysgogi ysgolion i roi mwy o bwyslais ar wella lefelau absenoldebau disgyblion, ond codwyd rhai pryderon am ba mor gyson a dibynadwy yw'r data sy'n cael ei gasglu. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NAHT Cymru ac ASCL Cymru,

> "…we believe however that this too may lack national consistency because some doubt remains whether all schools and local authorities report absences to a common format. Until this is resolved, a reliable all-Wales picture will be difficult to achieve."[48]

92. Yn ei dystiolaeth lafar, tynnodd Cyngor Sir Ceredigion sylw at y ffaith bod pwysoliad gwahanol i bresenoldeb o dan drothwy lefel 2 y system fandio. Aeth yn ei flaen i ddweud mai'r blaenoriaethau cenedlaethol yw llythrennedd a rhifedd ar y naill law a phresenoldeb ac ymddygiad ar y llaw arall, ac y dylent gael eu cydnabod gyda'r un statws.

93. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

> "I do not agree with that. It is important that attendance is an element within the banding, but improved attendance is one of the factors that contribute to improved school performance and the whole point of banding is to ensure that we are monitoring the improvement of schools. […] I think that we have had the necessary push as a result of including attendance. I am not sure that we would get much more if we increased the weighting within the overall banding framework."[49]

---

[47] Papur CYP(4)-09-13(p4) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 13 Mawrth 2013
[48] Papur CYP(4)-04-13(p5) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NAHT Cymru ac ASCL Cymru, 31 Ionawr 2013
[49] Cofnod y Trafodion [paragraff 270], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Beth a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am bresenoldeb**

94. Yn ein hymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros absenoldeb oedd bwlio a diffyg awydd i fynd i'r ysgol: naill ai nad oeddent am fynychu neu roeddent am wneud pethau eraill gyda ffrindiau. Y thema fwyaf cyffredin wedyn oedd gwersi a gwaith ysgol: roedd y gwersi yn ddiflas a'r gwaith yn rhy anodd. Awgrymodd rhai grwpiau fod methiant i gwblhau gwaith gartref yn rheswm dros absenoldeb.

95. Tynnodd sawl grŵp sylw at faterion yn ymwneud â rhieni a bywyd yn y cartref. Yn eu plith roedd y ffaith nad oedd rhieni'n sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol, anawsterau yn y cartref a chyfrifoldebau gofalu. Awgrymodd nifer o grwpiau faterion yn ymwneud ag athrawon: efallai nad oedd disgyblion yn hoffi athrawon unigol, gallai fod tensiynau rhyngddynt a'r disgyblion, diffyg ymddiriedaeth neu ymdeimlad nad oedd diddordeb gan yr athrawon.

96. Cyfeiriodd rhai grwpiau at faterion yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys teimladau o unigrwydd, a diffyg dealltwriaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ymhlith y rhesymau eraill a nodwyd gan grwpiau unigol roedd cyffuriau, yr angen i fynd i'r gwaith a'r ffaith bod y diwrnod ysgol yn dechrau'n gynnar.

97. Mewn ymateb i beth fyddai'n annog lefelau presenoldeb gwell, cyfeiriodd y nifer fwyaf o ymatebion at wersi mwy difyr, mwy o amrywiaeth, mwy o amser rhydd a gweithgareddau allgyrsiol. Cafwyd nifer o ymatebion yn ymwneud ag athrawon ac arddulliau addysgu. Awgrymodd rhai grwpiau hefyd y dylai disgyblion gael eu trin yn fwy cyfartal ac y dylid cydnabod disgyblion fel unigolion gan ddangos mwy o empathi a dealltwriaeth, a sgwrsio ac ymgynghori mwy â hwy.

**Bwlio**

98. Dywedir yn aml fod bwlio yn rheswm dros absenoldeb. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor na chaiff bwlio ei gydnabod yn aml, bod athrawon yn aml yn methu â gwneud dim i'w atal a'i bod yn aml yn anodd iawn i blentyn neu berson ifanc deimlo'n ddigon hyderus i roi gwybod amdano i athro.

99. Dywedodd yr Athro Ken Reid:

> "If you look at the causes of school attendance and at my latest, recently published research on this matter, it shows, for example,

> that bullying, and particularly cyberbullying, is one of the most significant causes of school absenteeism."[50]

100. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Barnardo's Cymru "there is no statutory obligation on schools or local authorities to monitor or record bullying."[51]

101. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrth y Pwyllgor fod canllawiau manwl iawn ar fwlio, a oedd yn ymdrin ag amryw fathau o fwlio, wedi'u cynhyrchu 18 mis yn flaenorol. Meddai:

> "There is great clarity and leadership on a national level. Bullying will always be a challenge in educational settings. Again, a lot of this comes down to best practice and the engagement of young people. We have had good examples through organisations like SNAP Cymru, which has taken up such issues. Recent material that it has developed includes its Wmff! app, for example. I have seen specific examples of good work in particular schools. The testimony of young people themselves in this field is very important, and we must ensure that they are engaged in this process."[52]

**Barn y Pwyllgor: Bwlio**

102. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n datblygu cyfres o ddeunyddiau gwrth-fwlio y bwriedir iddynt roi canllawiau manwl ac atebion ymarferol er mwyn atal achosion o fwlio mewn ysgolion ac ymateb iddynt. Noda'r Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu arolygon dros Gymru gyfan i ganfod pa mor gyffredin yw bwlio. Fodd bynnag, roedd yn bryder i'r Pwyllgor nodi bod y dystiolaeth a gawsom yn dangos nad oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar ysgolion nac awdurdodau lleol i fonitro na chofnodi bwlio. Gallai data cywir gan ysgolion ar y cysylltiad, os o gwbl, rhwng bwlio a chyfraddau absenoldeb roi sail i ddatblygu cymorth mwy penodol a chynyddu presenoldeb disgyblion.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i ddefnyddio unrhyw gysylltiad rhwng cyfraddau bwlio ac absenoldeb mewn ysgolion.**

---

[50] Cofnod y Trafodion [paragraff 59], 17 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[51] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB04
[52] Cofnod y Trafodion [paragraff 326], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Canllawiau ar absenoldebau yn ystod y tymor ysgol**

103. Cyfeiriodd nifer o'r undebau athrawon at y broblem bod disgyblion yn cael eu tynnu allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.

104. Dywedodd Anna Brychan, NAHT Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Mae gwyliau'n fater sy'n gallu peri problemau o safbwynt presenoldeb mewn ysgol - gwyliau yn ystod y tymor, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau ni'n cydymdeimlo â rhieni, sy'n wynebu costau llawer uwch yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae rhinwedd i gael gwyliau teuluol - ni fyddwn yn dadlau â hynny. Fodd bynnag, mae'n peri problemau i ysgolion. Mae cyfarwyddyd diweddaraf y Llywodraeth yn llawer mwy pendant, gan alluogi ysgolion i ddweud 'na', ac mae hynny wedi bod o help mawr. Mae wedi golygu bod rhai sgyrsiau reit anodd a heriol â rhieni sy'n teimlo'n gryf na ddylent golli'r cyfle i fynd ar eu gwyliau am na allent fforddio fynd ar adeg arall, ond mae wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi bod yn erfyn defnyddiol iawn i'r ysgolion."[53]

105. Galwodd UCAC am ddatganiad clir mewn perthynas â thynnu disgyblion allan o'r ysgol i fynd ar wyliau/teithiau yn ystod y tymor ysgol.

**Defnyddio gwobrau**

106. Amlygodd NAHT a Chomisiynydd Plant Cymru fanteision cyflwyno gwobrau am bresenoldeb da.

107. Dywedodd NAHT Cymru:

> "Other schools, particularly in the primary sector, report very positive effects from the introduction of awards for children who maintain a good attendance record (bronze award certificate for 100% attendance at Christmas; silver award certificate at Easter; gold award certificate and prize in the summer for example). Children engage very happily in this process; one school reported that it frequently exceeds its 95% attendance target by employing these strategies."[54]

---

[53] Cofnod y Trafodion [paragraff 229], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[54] Papur CYP(4)-04-13(p5) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NAHT Cymru ac ASCL Cymru, 31 Ionawr 2013

## Codau Llywodraeth Cymru

108. Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar godau newydd i gofrestru presenoldeb yn yr ysgol[55]. Y bwriad oedd y byddent yn cael eu defnyddio'n gyson i gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb ledled Cymru a chynyddu'r potensial i ymchwilio i'r rhesymau dros absenoldeb disgyblion, gan ddiogelu ac olrhain disgyblion yn well a, thrwy hynny, gyflwyno strategaethau i ddelio'n effeithiol â phroblemau penodol.

109. Dywedodd Robin Brown, Pennaeth Cynhwysiant Addysgol, Dinas a Sir Abertawe:

> "It is all right to say that you put out guidance, and I know that we held seminars for our heads and spoke with them, but are you sure that you are always interpreting it in the same way? If you do not interpret it in the same way, your comparisons will not necessarily be on a level playing field. So, I would suggest that it would be helpful to ensure that we have a level playing field and that the Welsh Government uses those data to look for patterns in them, particularly on the coding, namely that it is being implemented as intended, and the assumptions that it draws from that."[56]

110. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd UCAC:

> "Bu sefydlu codau cofnodi absenoldeb cenedlaethol a chytunedig yn gam gwerthfawr o ran eglurder a chysondeb. Mae'r codau hyn wedi hwyluso casglu data ar bob lefel ac wedi arwain at well cysondeb ledled Cymru yn unol â'r bwriad. Ers mabwysiadau'r canllawiau newydd, fodd bynnag, mae yna ormod o amser ac egni swyddogion ar bob lefel wedi mynd ar adolygu ac addasu y codau hyn a hynny ar draul rhoddi sylw i'r rhesymau dros yr absenoldebau hynny."[57]

## Pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd

111. Yn 2009, cadeiriodd yr Athro David Egan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Addysg 8-14 yng Nghymru. Roedd y grŵp yn gyfrifol am ystyried profiad addysgol rhai rhwng 8 a 14 oed, gan gynnwys y cyfnod pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Cafodd ymddygiad a phresenoldeb eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ond ni roddwyd

---

[55] Llywodraeth Cymru, *Guidance on School Attendance Codes*, Mehefin 2010
[56] Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 27 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[57] Papur CYP(4)-04-13(p4) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan UCAC, 31 Ionawr 2013

sylw mawr iddynt yn adroddiad cyntaf y grŵp. Ymhlith canfyddiadau adroddiad cyntaf y grŵp, a gyhoeddwyd yn 2010, roedd:

- Er bod llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd da drwy gydol eu haddysg 8-14 oed, mae cyflawniad nifer sylweddol o bobl ifanc yn tueddu i ddirywio mewn termau cymharol yn ystod y cyfnod hwn;
- Mewn ysgolion ymddengys bod y datgysylltiad hwn a'r dirywiad dilynol yn gysylltiedig ag anawsterau a wynebir gan ddisgyblion ym maes sgiliau sylfaenol ac yn enwedig llythrennedd;
- Y tu allan i'r ysgol, caiff yr anawsterau hyn eu dwysáu gan ddiffyg uchelgais a phwysau negyddol gan gyfoedion;
- Mae llawer o fyfyrwyr yn wynebu heriau allweddol wrth bontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 sy'n arwain at berfformiad gwael yn ddiweddarach. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r dulliau dysgu ac addysgu gwahanol y maent yn dod ar eu traws a'r problemau a wynebant o ran sgiliau sylfaenol, yn enwedig llythrennedd.

112. Gan gyfeirio at ymchwil diweddar a wnaeth yng Nghaerdydd, dywedodd yr Athro Ken Reid wrth y Pwyllgor:

> "The message that came across to me from some primary heads was that they were doing absolutely everything possible but then they were in despair at what happened to their pupils once they went to their local comprehensive."[58]

113. Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "I was in some primary schools in Cardiff, and I have been in other primary schools in Wales, where the attendance rates were in the order of 86%, 87% and 88%. So, putting it the other way, if you look at a school such as Fitzalan High School in Cardiff, where it inherits pupils from primary schools where the average attendance is in the order of 88%, 89% and 90% and it loses only a further 1% over five years, you could say that a school such as Fitzalan is doing incredibly well."[59]

[58] Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 17 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[59] Ibid

**Barn y Pwyllgor: Pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd**

114. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn bwysig ystyried y potensial i wella'r modd yr ymdrinnir â phresenoldeb disgyblion yn union ar ôl iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

115. Roedd gwaith ysgol a gwersi yn thema gyffredin yn y dystiolaeth a gafwyd gan blant a phobl ifanc. Cawsom dystiolaeth gan rai plant a phobl ifanc bod rhai gwersi yn ddiflas ac mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai problemau o'r fath waethygu yn achos rhai disgyblion yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Mae angen ymdrin â'r broses bontio mewn ffordd gyson er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddarpariaeth Addysg 8-14 yng Nghymru. Canfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod cyflawniad nifer sylweddol o bobl ifanc yn tueddu i ddirywio mewn termau cymharol yn ystod y cyfnod hwn. Gall datblygu cyfres o ddangosyddion i fonitro cyfres o ddata perfformiad allweddol yn ystod y cyfnod pontio fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

116. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall y consortia rhanbarthol chwarae rôl yn y maes hwn. Yn benodol, gall y consortia rhanbarthol wneud gwaith craffu pellach i ganfod pa ysgolion uwchradd sy'n llwyddo i gynnal yr un lefelau presenoldeb disgyblion ag ysgolion cynradd, pa rai sy'n dirywio a pha rai sy'n gwella a pha un a oes unrhyw wersi i'w dysgu mewn perthynas â hynny.

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffocws clir ar gynnal a gwella cyfraddau presenoldeb yn ystod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Dylid ystyried y posibilrwydd y gallai'r consortia rhanbarthol chwarae rhan gryfach yn hyn o beth.**

**Ymateb Diwrnod Cyntaf**

117. Mewn perthynas â gwella presenoldeb mewn ysgolion, dywedodd Estyn:

> "One of the key success factors has been the targeting of difficult-to-reach families and the use of 'first-day response' to contact families. This strategy has improved both attendance rates and standards for the pupils concerned in secondary schools but has yet to be used to full effect in primary schools."[60]

118. Yn ei hadroddiad Gwella Presenoldeb (2006), dywed Estyn mai 'ymateb diwrnod cyntaf' yw pan fod ysgol yn cysylltu â rhieni dros y ffôn ar ddiwrnod

[60] Papur CYP(4)-06-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Estyn, 21 Chwefror 2013

cyntaf absenoldeb disgybl. Os na ellir siarad ag un o'r rhieni yn uniongyrchol, mae'r ysgol yn anfon llythyr yn gofyn i'r rheini gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o absenoldeb eu plentyn cyn gynted â phosibl.

**Barn y Pwyllgor: Ymateb Diwrnod Cyntaf**

119. Roedd diddordeb mawr gan y Pwyllgor glywed am effeithiolrwydd yr 'ymateb diwrnod cyntaf'. Credwn fod angen adolygu i ba raddau y defnyddir 'ymatebion diwrnod cyntaf' ac unrhyw amrywiadau yn eu defnydd er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn dilyn y drefn yma - y profwyd ei bod gyda'r mwyaf effeithiol o ymdrin ag absenoldeb - a nodi'r potensial i'r consortia rhanbarthol chwarae rôl allweddol yn hyn o beth.

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw 'ymatebion diwrnod cyntaf' i fynd i'r afael ag absenoldebau disgyblion er mwyn cyhoeddi canllawiau manylach arnynt.**

**Gwasanaeth Lles Addysg**

120. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth bod prinder Swyddogion Lles Addysg yng Nghymru.

121. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ATL Cymru:

> "By and large members valued the work undertaken by EWOs but reported that there was a need for more such officers in the field."[61]

122. Dywedodd Hugh Pattrick, Llywodraethwyr Cymru, wrth y Pwyllgor fod amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol a bod swyddogion lles addysg ond ar gael yn ysbeidiol fel arfer am eu bod wedi'u hymestyn gymaint ac yn gweithio mewn ardal mor eang. Fodd bynnag, pan roeddent ar gael, gallent fod yn dda iawn.

123. Clywodd y Pwyllgor hefyd bryderon am effaith cyllidebau dirprwyedig ar y Gwasanaeth Lles Addysg, oherwydd câi ei ariannu gan awdurdodau lleol yn hytrach na'r consortia rhanbarthol. Dywedodd Hugh Davies, ASCL Cymru:

> "Our fear is that services, such as the EWO service and other non-statutory services, will be the first victims, if you like, of the cuts."[62]

[61] Papur CYP(4)-04-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan ATL Cymru, 31 Ionawr 2013
[62] Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

124. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Estyn:

> "In many local authorities the links between the education welfare service (EWS) and school improvement services are not strong enough. Although in some local authorities the EWS function actually sits within the school improvement service, traditionally, attendance and education welfare have not always been seen as priorities for school improvement services."[63]

125. Ategwyd hyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

> "There has to be greater integration between the approach to school improvement and the operations of the education welfare service. We are going to regionally based school improvement services through the consortia, which is something of a driver. Some of the evidence you have taken indicates the importance of close integration between education welfare services and school improvement services. To put it bluntly, I do not think that we can have 22 different approaches in this area. Either there is good practice or there is not. We need to learn from it. I would like to know what the directors of education are doing to learn about that good practice and to use it. That is their responsibility."[64]

### Barn y Pwyllgor: Gwasanaethau Lles Addysg

126. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor wedi pwysleisio pwysigrwydd Gwasanaethau Lles Addysg o ran presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Dangosodd hefyd fod newid i ddirprwyo cyllidebau i ysgolion yn rhoi pwysau anochel ar flaenoriaethu pa wasanaethau canolog a gaiff eu darparu o hyd gan yr awdurdod lleol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi tystiolaeth Estyn nad yw'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth lles addysg a gwasanaethau gwella ysgolion yn ddigon cryf mewn llawer o awdurdodau lleol.

127. Am y rhesymau hyn, ac fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad gael eu datblygu'n strategol, eu goruchwylio a'u hariannu ar lefel ranbarthol.

---

[63] Papur CYP(4)-06-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Estyn, 21 Chwefror 2013

[64] Cofnod y Trafodion [paragraff 246], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Hysbysiadau Cosb Benodedig

128. Pan ddechreuodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynigion i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i fynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig mynych o'r ysgol.

129. Nid oedd unrhyw dystion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor o blaid cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig.

130. Dywedodd yr Athro Ken Reid er y gwelwyd bod hysbysiadau cosb benodedig yn gweithio gyda nifer fach o rieni, nid oeddent yn effeithiol ar y cyfan.

131. Aeth Hugh Pattrick, Llywodraethwyr Cymru, cyn belled â dweud:

> "I think it is disastrous. You are trying to engender a good relationship between the teaching staff, parents and children, and that is one good way of destroying all of that. People are always looking for easy answers to things, but there is no easy answer. If you just issue a fixed-penalty notice - without trying to label anybody, some of these people are those with the greatest problems; they have financial problems and other problems - all you are doing is piling one thing on top of another and that will be a complete and utter disaster."[65]

132. Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ei fod wedi gofyn i'w swyddogion baratoi rheoliadau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer absenoldeb mynych o'r ysgol o 1 Medi 2013. Caiff canllawiau ar y system hysbysiadau cosb eu cyhoeddi cyn i'r rheoliadau ddod i rym, a byddant yn cynnwys cyngor manwl ar fformat y cod ymddygiad lleol, ei gynnwys, sut y dylid ymgynghori arno a sut y dylid ei gymhwyso.

## Barn y Pwyllgor: Hysbysiadau Cosb Benodedig

133. Mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r penderfyniad i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig o gofio nad oedd unrhyw dyst a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor o blaid eu defnyddio. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn yn awgrymu mai gwobrau sy'n gweithio orau a bod amrywiaeth o fesurau mwy cadarnhaol y gallai Llywodraeth Cymru eu datblygu yn hyn o beth. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog ar y pryd yn bwriadu cyhoeddi

[65] Cofnod y Trafodion [paragraff 215], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

canllawiau cyn i'r rheoliadau ddod i rym a byddai'n croesawu'r cyfle i weld y canllawiau drafft a rhoi sylwadau arnynt cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

**Ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae'r Pwyllgor yn argymell yn gryf bod y Gweinidog yn ystyried strategaethau amgen mwy cadarnhaol fel dewis arall i hysbysbiadau cosb benodedig cyn cyflwyno'r rheoliadau a'i fod yn cyhoeddi'r sail dystiolaeth dros weithredu_hysbysiadau cosb benodedig, os penderfynir bwrw ymlaen â hwy.**

# 4. Ymddygiad

## Ystadegau Gwaharddiadau

134. Dangosodd yr ystadegau addysg diweddaraf a gyhoeddwyd[66] fod gwaharddiadau parhaol wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2004/05 a'u bod wedi lleihau bob blwyddyn ers hynny. Ymosodiadau neu drais tuag at staff a thorri rheolau oedd y ddau brif reswm a roddwyd dros waharddiadau parhaol, ac roeddent yn cyfrif am fwy na 40% o waharddiadau parhaol yn ystod 2011/12. Torri'r rheolau oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros waharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai a chwe diwrnod neu fwy.

135. Dangosodd yr ystadegau hefyd fod gan Gymru gyfradd uwch o waharddiadau parhaol yn 2010/11 na'r Alban ond cyfradd is na Lloegr; ar lefel eilaidd, y gyfradd yw 0.7 fesul 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru o gymharu ag 1.2 fesul 1,000 o ddisgyblion yn Lloegr, ac yn ystod yr un cyfnod, roedd y gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban: cyfradd o 43.4 fesul 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru o gymharu â 39.9 yn yr Alban a 39.6 yn Lloegr.

136. Dywedodd Rolant Wynne, UCAC, wrth y Pwyllgor:

> "Yr hyn rydym wedi ei ganfod yw y bu cynnydd amlwg yn y nifer o achosion o ymddygiad eithafol, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar. Daw hynny wrth aelodau sydd yn cysylltu â ni'n uniongyrchol. Efallai bod problemau ymddygiad ar lefel isel yn gyffredinol, ond mae ysgolion yn gallu delio â'r rheini. Yr hyn rydym yn ei glywed gan aelodau yw bod cynnydd sylweddol mewn nifer bach ond arwyddocaol o blant sydd yn ymosodol eu natur yn y ddwy neu dair blynedd gyntaf a bod hynny yn amharu ar waith yr ysgol a gwaith y dosbarth yn benodol, gan roi athrawon a'r disgyblion eraill mewn perygl."[67]

137. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Barnardo's Cymru am ddull mwy penodol i gefnogi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu gwahardd. Dywedodd:

> "The statistics for 2010-2011 highlight how exclusions have a pattern in terms of pupils who receive exclusions. Boys are affected more

---

[66] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru *Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2011/12*, 26 Chwefror 2013

[67] Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

than girls, certain ethnic groups receive more exclusions and there is more prevalence of exclusion for SEN. We suggest that these patterns should be explored in conjunction with effective practice to reduce exclusion."[68]

**Beth a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am ymddygiad**

138. Yn ein hymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion o ran beth roedd ymddygiad gwael yn ei olygu yn eu barn hwy. Y mwyaf cyffredin oedd trais neu anafu rhywun; amharu ar wersi a bod yn amharchus; rhegi; bwlio; ateb athrawon yn ôl; difrodi eiddo; ysmygu; taflu pethau.

139. Dywedodd nifer fawr o blant a phobl ifanc fod ymddygiad gwael yn amharu ar ddosbarthiadau ac yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio a dysgu. Dywedodd nifer o blant a phobl ifanc hefyd fod y dosbarth cyfan wedi cael ei gosbi oherwydd ymddygiad un unigolyn.

140. Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion o ran beth y dylid ei wneud i wella ymddygiad neu reoli ymddygiad gwael. Y prif themâu oedd gwobrau; gwaith ysgol; addysgu; yr amgylchedd ysgol; cosbau; a chymorth arall. Awgrymodd llawer o blant a phobl ifanc y dylai fod system wobrwyo a chafwyd nifer o awgrymiadau yn ymwneud â chosbi, fel atal breintiau; cadw disgyblion i mewn; ac ynysu.

141. Cafwyd nifer o awgrymiadau am waith ysgol, gan gynnwys gwersi mwy difyr; mwy o wersi awyr agored; gwersi mwy ymarferol; a mwy o ddewis. O ran addysgu, cafwyd awgrymiadau ynghylch gwell cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng athrawon a disgyblion; hyfforddiant gwell i athrawon ar reoli ymddygiad; athrawon mwy llym neu awdurdodol; a mwy o amser un i un. Awgrymodd nifer o blant a phobl ifanc welliannau i'r amgylchedd ffisegol - llai o orlenwi, dosbarthiadau llai o faint a mwy o gyfleusterau ymarfer corff. Cafwyd nifer o awgrymiadau hefyd am gymorth arall mewn ysgolion fel mwy o gwnselwyr annibynnol, gweithwyr ieuenctid neu fodelau rôl.

**Defnyddio Gwaharddiadau**

142. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar waharddiadau yn dangos i waharddiadau parhaol gyrraedd uchafbwynt yn 2004/05 a'u bod wedi lleihau bob blwyddyn ers hynny.

---

[68] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB04

143. Yn 2010/11, cafwyd 158 o waharddiadau parhaol o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir yng Nghymru, lleihad o 27 o gymharu â 2009/10. Roedd bron dri chwarter o'r rhai a gafodd eu gwahardd yn barhaol yn fechgyn. Yn 2009/10, roedd y gyfradd gwaharddiadau parhaol yn is yng Nghymru nac yn Lloegr, ond roedd yn uwch na'r Alban. Ymosodiadau neu drais tuag at ddisgyblion a staff oedd y ddau brif achos dros waharddiadau parhaol, gan gyfrif am fwy na 40% o waharddiadau parhaol yn ystod 2010/11.

144. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Athro Ken Reid:

> The use of exclusion (including permanent/fixed-term and illegal exclusions) was fully covered in the NBAR Report (2008) but perhaps surprisingly, received comparatively little coverage in Behaving and Attending (2009) and in subsequent WG publications. The issues of both exclusions and unofficial exclusions, as well as the way managed moves are currently utilised and implemented by LA's throughout Wales, commanded much attention and focus within the NBAR deliberations.[69]

145. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ATL Cymru:

> "While we would wish to see permanent exclusions reduced to zero this cannot be at the cost of tolerating violent and threatening behaviour."[70]

146. Roedd NASUWT Cymru yn teimlo'n gryf bod defnyddio targedau i leihau'r defnydd a wneir o waharddiadau fel cosb neu gyfyngu arnynt yn annerbyniol.

147. Yn ei dystiolaeth lafar, codwyd pryderon hefyd am y broses apelio. Dywedodd Rex Phillips wrth y Pwyllgor:

> "[…] if the headteacher or governing body of a school has decided to exclude a pupil permanently, as long as the correct procedures have been followed and the correct processes have taken place, and everybody has decided that exclusion is the right course of action, it

[69] Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro Ken Reid, 17 Ionawr 2013
[70] Papur CYP(4)-04-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan ATL Cymru, 31 Ionawr 2013

ill behoves an independent appeals panel to overturn the decision, because that just places the disruption back into the school."[71]

**Barn y Pwyllgor: Gwaharddiadau**

148. Mae gan y Pwyllgor bryderon amrywiol am waharddiadau gan gynnwys y bobl ifanc hynny sy'n ymddangos fel pe baent yn cael eu gwahardd dro ar ôl tro, a hynny am gyfnodau sylweddol o bosibl. Yn ogystal, mae ymchwil Prifysgol Caeredin yn dangos nad yw disgyblion EOTAS wedi cael eu hailintegreiddio i mewn i ysgolion prif ffrwd yn gyffredinol. Rydym yn pryderu na roddir digon o bwyslais ar helpu plant a phobl ifanc i ddychwelyd i ddarpariaeth brif ffrwd ac osgoi'r cylch gwaharddiadau a all effeithio, nid yn unig ar gyflawniad addysgol plant, ond sydd hefyd yn gallu eu hynysu oddi wrth eu lleoliadau cymunedol a'u cyfoedion.

149. Mae proffil y plant a'r bobl ifanc a gaiff eu gwahardd hefyd yn peri pryder penodol gan fod gan dros hanner y disgyblion a gaiff eu gwahardd a bron 90 y cant o ddisgyblion mewn darpariaeth EOTAS anghenion addysgol arbennig yn ôl yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd[72]. Rhaid bod y dulliau cymorth cywir ar gael i helpu'r disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymorth, fel bod y system yn ymdrin ag ymddygiad y grŵp craidd o ddisgyblion y mae eu problemau'n ymwneud yn uniongyrchol â disgyblaeth yn yr ysgol.

**Gwaharddiadau Answyddogol / Anghyfreithlon a thynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol**

150. Mae'n anghyfreithlon i ysgolion ofyn i rieni neu warcheidwaid gadw eu plant i ffwrdd o'r ysgol heb fod yr ysgol yn rhoi hysbysiad gwahardd ffurfiol. Yn dilyn ACYP, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, a ffynonellau eraill, adroddiadau a oedd yn cynnwys tystiolaeth anecdotaidd i ddangos bod gwaharddiadau anghyfreithlon yn digwydd mewn rhai ysgolion ar draws Cymru.

151. Yn 2007, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad yn dilyn ymchwiliad i waharddiadau answyddogol o ysgolion[73], a ganfu fod 'gwaharddiadau anghyfreithlon' neu 'answyddogol' yn gyffredin ac y gallent roi plant mewn perygl. Canfu ACYP hefyd dystiolaeth anecdotaidd o

---

[71] Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[72] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru *Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2011/12*, 26 Chwefror 2013
[73] Cyhoeddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru, *Adroddiad yn dilyn ymchwiliadau i waharddiadau answyddogol o'r ysgol*

waharddiadau anghyfreithlon. Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil gan Barnardo's a SNAP Cymru, Experiences of illegal school exclusions in Wales: qualitative study[74], a ganfu:

> "Whilst LAs have made strenuous efforts to prevent illegal exclusions being used and have taken a variety of steps to stop schools using them, it was apparent from case evidence, professionals who were not working for the LA, and parents' experiences, that they still occur."

152. Canfu'r astudiaeth hefyd:

> "The data shows that exclusions often merge together between being illegal, official, voluntary and agreed absence; and generally happen repeatedly. Therefore illegal exclusions happen at all ages and in mainstream and specialist sectors…" a

> "Schools need more flexible options for offering support. Illegal exclusions seem to occur when they do not know what else to do but do not want to issue an official exclusion."

153. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "The evidence included in the Welsh Government commissioned study of illegal school exclusions (2011) is of great concern to me. There is clear evidence to suggest that there are cases where children and young people are having their right to an education unlawfully removed."[75]

154. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 31 Ionawr 2013, awgrymodd NAHT Cymru fod gwaharddiadau anghyfreithlon/answyddogol yn fwy cyffredin o bosibl 10 mlynedd yn ôl ac y byddai'n synnu pe bai llawer o dystiolaeth i ddangos eu bod yn digwydd yn rheolaidd yn 2013. Awgrymwyd mai'r rheswm am hyn yw bod systemau monitro presenoldeb mwy trylwyr ar waith.

155. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth, dywedodd SNAP Cymru ei fod wedi gweithio'n uniongyrchol gyda 92 o achosion o waharddiadau anghyfreithlon. Yn ei dystiolaeth lafar, darparodd enghraifft lle gofynnwyd i fam plentyn

---

[74] Llywodraeth Cymru: *Experiences of illegal school exclusions in Wales: a qualitative study*[74] Prosiect ymchwil ar y cyd gan Barnardo's Cymru a SNAP Cymru a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2011

[75] Papur CYP(4)-05-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 6 Chwefror 2013

oedd â syndrom Asperger, a oedd yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, ei dynnu allan o'r ysgol am wyliau cynnar am fod yr ysgol yn disgwyl arolwg. Ym mhrofiad SNAP Cymru, mae hynny'n eithaf cyffredin, ond mae'n credu bod rhieni plant sy'n gallu ymddwyn yn fwy heriol yn falch eu bod yn gallu cadw eu plant yn yr ysgol ac felly nid ydynt yn cwyno am y peth.

### *Tynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol*

156. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "I am surprised and concerned that although Welsh Government guidance sets out the nature of unlawful exclusions and the reasons why they must always be considered illegal it also includes a section on 'voluntary withdrawals' (2012:17). The guidance states that 'influencing or encouraging parents/carers to 'voluntarily withdraw their child from school as a way of dealing with difficult or challenging behaviour is not an appropriate response' and states that local authorities will need to consider what action is appropriate where schools are found to be practising 'voluntary' withdrawals. I would suggest that the practice of 'voluntary withdrawals' represents permanent exclusions by another name without any of the safeguards and educational entitlements associated with official procedure. Welsh Government should adopt a stronger position in relation to non-tolerance of 'voluntary withdrawal' practice as it clearly runs contrary to the best interests of the child principle."[76]

157. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (2011) y cyfeiriodd y Comisiynydd atynt yn datgan:

> "Nid yw dylanwadu ar rieni/gofalwyr neu eu hannog i dynnu eu plentyn o'r ysgol yn 'wirfoddol' fel ffordd o ddelio ag ymddygiad anodd neu heriol yn ymateb priodol. Mae rhoi pwysau trwm ar rieni/gofalwyr i dynnu eu plentyn o'r ysgol yn enwedig ei dynnu oddi yno'n barhaol, yn golygu bod plentyn yn cael ei amddifadu o addysg, gan ei bod yn annhebygol y gellir trefnu lle mewn ysgol arall ar fyr rybudd. [...] Bydd angen i ALlau ystyried pa gamau sy'n briodol os gwelir bod ysgol yn tynnu dysgwyr o'r ysgol yn 'wirfoddol'".

158. Yn ei dystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Gweinidog at ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Caeredin i ymchwilio i'r broses gwaharddiadau o'r

---

[76] Papur CYP(4)-05-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 6 Chwefror 2013

ysgol a hefyd sut y caiff darpariaeth addysg y tu allan i ysgolion ei chyflenwi, ei chynllunio a'i chomisiynu. Wrth gomisiynu'r ymchwil, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "This important piece of research will play a key role in the development of policy aimed at improving both the consistency and fairness of the exclusion process, as well as the quality and consistency of alternative provision in Wales."[77]

**Barn y Pwyllgor: Gwaharddiadau Answyddogol / Anghyfreithlon a thynnu disgyblion o ysgolion yn wirfoddol**

159. Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn i glywed tystiolaeth mor anghyson ynghylch lefelau gwaharddiadau answyddogol neu anghyfreithlon fel y'u gelwir. Awgrymodd rhai tystion ei bod yn annhebygol iawn bod gwaharddiadau o'r fath yn digwydd. Ar y llaw arall, rhoddodd SNAP Cymru wybodaeth ystadegol i'r Pwyllgor am yr achosion y mae wedi delio â hwy lle dywedodd fod plant wedi cael eu gwahardd yn anghyfreithlon a rhoddodd enghraifft benodol o blentyn yn cael ei dynnu o'r ysgol yn ystod arolwg. Nodwn fod adroddiad Prifysgol Caeredin[78], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 wedi canfod bod bron holl staff awdurdodau lleol yn cydnabod bod gwaharddiadau anghyfreithlon yn parhau i ryw raddau.

160. Roedd yn siomedig nad oedd y tystion hynny a fynegodd bryderon am waharddiadau anghyfreithlon wedi gallu darparu tystiolaeth fwy argyhoeddiadol i ategu eu pryderon. Serch hynny, mae Aelodau unigol yn ymwybodol o amgylchiadau o'r fath drwy eu gwaith etholaeth ac rydym yn pryderu'n fawr ei bod yn ymddangos bod rhai plant yn colli eu hawl i gael addysg yn y ffordd hon. Bydd y Pwyllgor yn monitro ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Prifysgol Caeredin gyda diddordeb ac, os credwn fod hynny'n briodol, byddwn yn ailystyried y mater hwn er mwyn casglu rhagor o wybodaeth.

**Symudiadau wedi'u Rheoli**

161. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid ystyried symudiadau wedi'u rheoli i roi cyfle i ddisgyblion ddechrau o'r newydd mewn ysgol newydd. Dywed y gall hyn hefyd leihau'r angen am waharddiadau parhaol a lleihau'r canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â hwy. Dywed canllawiau Llywodraeth Cymru na ddylai symudiadau wedi'u rheoli gael eu defnyddio fel dewis

---

[77] Gwefan BBC News 27 Chwefror 2013
[78] Gwerthusiad o ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (tudalen 56)

amgen i waharddiadau parhaol yn unig gan y byddai hyn yn atal rhieni a disgyblion rhag arfer yr hawl i apelio yn erbyn y gwaharddiad. Awgryma'r canllawiau bod symudiadau wedi'u rheoli yn strategaeth a ddefnyddir eisoes ar gyfer: disgyblion sy'n wynebu risg o waharddiad parhaol ond a allai lwyddo mewn amgylchedd newydd; disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol sydd wedi derbyn amrywiaeth o strategaethau cefnogol yn eu hysgol heb fawr ddim llwyddiant; a disgyblion sy'n teimlo bod mynychu eu hysgol bresennol yn cael effaith andwyol ar eu lles emosiynol.

162. Fodd bynnag, dywedodd Hugh Davies, ASCL Cymru, wrth y Pwyllgor:

> "[…] quite often, managed moves, as they pan out in real life, are almost akin to permanent exclusions, because the crisis happens and the managed move is quickly cobbled together at that point. Managed moves work well when they are planned in advance. As a series of behaviours begin to demonstrate themselves in a child's history in school, the managed move should be considered at that point, rather than at the crisis point when a permanent exclusion is a very real likelihood and a possibility. The way in which it currently maps out in practice, when the managed move is hastily organised, in effect has the same outcome as a permanent exclusion, because the child hastily leaves one school and hastily joins another. I think that we need to do a lot more work on managed moves."[79]

163. Pan ofynnwyd a ddylai ysgol sydd wedi symud disgybl drwy'r polisi symudiadau wedi'u rheoli, yn ei thro, dderbyn disgybl arall o dan y polisi, dywedodd Robin Brown, Pennaeth Cynhwysiant Addysgol Dinas a Sir Abertawe:

> "If you could make it work like that, that would really help. However, it does not quite work like that in practice for us because our full schools are the popular schools, and they may well have different criteria for behaviour, but it just does not work out for us to have a quota system."[80]

**Barn y Pwyllgor: Symudiadau wedi'u Rheoli**

164. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai canllawiau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn arwain yn anfwriadol at greu grwpiau mawr o ddisgyblion yn mynychu'r un ysgol o dan bolisïau symudiadau wedi'u rheoli. Dylai

---

[79] Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[80] Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 27 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

awdurdodau lleol fod yn wyliadwrus o hyn a dylai unrhyw adolygiad o ganllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried y mater penodol hwn.

**Darpariaeth i ddisgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gan gynnwys mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD)**

165. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Athro Reid:

> "The position in Wales on EOTAS is extremely complicated. As a whole, the country suffers from an acute shortage of EOTAS provision and such provision which currently exists is both disparate and uneven with, as ESTYN has recognised, considerable improvements needed…"[81] a:
>
> "Conwy is probably the leading authority in this field in Wales. Some other LAs in Wales have little or no alternative provision for a wide variety of reasons, despite clear needs."[82]

166. Canfu gwaith Estyn, 'Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion[83], er bod staff addysgu a chymorth mewn unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru wedi'u hyfforddi'n dda ac yn hyderus wrth weithio gyda disgyblion sy'n agored i niwed, fod angen i'r rhan fwyaf o unedau cyfeirio disgyblion adolygu a gwella eu polisïau, eu systemau cynllunio disgyblion, eu trefniadau rheoli risg a'u prosesau rheoli cofnodion. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw systemau cynllunio disgyblion UCD yn ymdrin â rheoli ymddygiad anodd ymhlith disgyblion unigol yn ddigon da.

167. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NASUWT Cymru:

> "The Welsh Government should ensure that a properly resourced national system of high-quality off-site placements is in place to assist schools to avoid permanent exclusion and to support pupils who are permanently excluded."[84]

168. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NUT Cymru:

---

[81] Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro Ken Reid, 17 Ionawr 2013
[82] Papur CYP(4)-02-13(p1a) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro Ken Reid, 17 Ionawr 2013
[83] Cyhoeddiad gan Estyn *Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion*, Ionawr 2012
[84] Papur CYP(4)-04-13(p2) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NASUWT Cymru, 31 Ionawr 2013

"Provision for pupils educated otherwise than in school vary significantly from Authority to Authority."[85]

169. Tra yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yntau, cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at:

"[…] a grim picture of the education offer provided to children and young people EOTAS. Every child has a right to an education that will develop their abilities and talents to the full (Article 29, UNCRC) and evidence according to the Welsh Government review suggests that we cannot have confidence that children who are EOTAS will have this right realised."[86]

170. Roedd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd ym mis Mawrth 2011, Gwneud Gwahaniaeth i Ymddygiad a Phresenoldeb, Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-2013[87] yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi cynllun gweithredu ar wella EOTAS a'i roi ar waith. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu EOTAS[88] ym mis Awst 2011 ac mae'n cynnwys 17 o argymhellion y nodwyd y dylid dechrau eu gweithredu yn 2011-2012. Mewn ymateb i'r adolygiad, comisiynodd Llywodraeth Cymru dîm ymchwil o Brifysgol Caeredin. Un o amcanion yr ymchwil oedd ymchwilio i'r rhwystrau i gynllunio a chomisiynu darpariaeth amgen ar lefel ardal ac i'r unigolyn a sut y gellid gwella hynny. Mae'r Pwyllgor yn nodi i'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar[89] ganfod ei bod yn debygol bod yr ystadegau EOTAS presennol yn tangyfrif y nifer a gaiff eu haddysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn datgan i'r ymchwil ganfod yn gyffredinol fod sail dda i lawer o'r pryderon a fynegwyd yn adroddiad ACYP, adroddiadau Estyn ac Adolygiad Llywodraeth Cymru.

### *Addysg yn y Cartref*

171. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor hefyd:

"Welsh Government's guidance on exclusion from schools and pupil referral units (2012) suggests that individual tuition, particularly in the learners' home is not usually well suited to meeting the needs of

[85] Papur CYP(4)-04-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NUT Cymru, 31 Ionawr 2013
[86] Papur CYP(4)-05-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 6 Chwefror 2013
[87] Cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, Gwneud Gwahaniaeth i Ymddygiad a Phresenoldeb - Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-213
[88] Cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Chynllun Gweithredu, Awst 2011
[89] Gwerthusiad o ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

learners except in the short term as part of a carefully coordinated package. However in 2010/11, 30% of permanently excluded pupils were given home tuition as their education provision. This individual tuition was the most frequently used provision for pupils whose main education is other than at school."[90]

172. Yn ôl y Datganiad Ystadegol Cyntaf diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Waharddiadau o Ysgolion yng Nghymru 2011/1291, roedd bron chwarter o'r holl ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol (23 allan o 102) yn cael addysg yn y cartref. Mae'r ffigur hwn wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2010/11) pan roedd 47 o'r 158 o ddisgyblion a waharddwyd yn cael addysg yn y cartref.

**Unedau Cyfeirio Disgyblion**

173. Dywedodd Anna Brychan, NAHT Cymru, wrth y Pwyllgor fod ei haelodau wedi codi pryderon nad oedd yr unedau mewn ysgolion wedi'u cynllunio o reidrwydd gan ystyried anghenion y disgyblion, a'u bod yn tueddu i fod yn hen adeiladau.

174. Aeth yn ei blaen i ddweud:

> "Mae gofynion plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu bod yn wahanol iawn, ac maent yn gallu gwrthdaro. Mae angen llai o stimulus yn eu hamgylcheddau ar rai plant i'w galluogi i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Mae angen y gwrthwyneb yn llwyr ar eraill. Mae pryder nad ydym yn meddwl - wrth newid adeiladau ysgolion neu adeiladu rhai newydd - am ofynion y rheiny'n ddigon gofalus i sicrhau bod modd addasu'r awyrgylch i siwtio unigolion. Rydym yn trio creu darpariaeth lle gall unigolion ddysgu hyd eithaf eu gallu. Os ydynt mewn awyrgylch gyda phobl eraill sy'n dysgu mewn ffyrdd hollol wahanol ac felly sy'n tarfu arnynt, yna mae hynny'n broblem go iawn."[92]

175. Os oedd unedau mewn ysgolion, clywodd y Pwyllgor fod presenoldeb a chanlyniadau'r disgyblion yn yr uned yn cyfrif tuag at ffigurau cyffredinol yr ysgol yn aml iawn. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar ffigurau cyffredinol yr ysgolion ac yn sgil hynny, roedd ysgolion wedi cael eu gosod

[90] Papur CYP(4)-05-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 6 Chwefror 2013
[91] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru ***Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2011/12,*** Chwefror 2013
[92] Cofnod y Trafodion [paragraff 197], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

mewn bandiau is neu wedi bod yn destun mesurau arbennig; a hynny oherwydd yr hyn a oedd yn digwydd yn yr uned, nid yn y brif ysgol.

176. Tra dywedodd Hugh Davies, ASCL Cymru:

> "One of the issues with PRUs is that the original philosophy behind them was that they were a revolving door and that children would go back to school - it would not be a once-and-for-all strategy. That does not always happen and pupils disappear into PRUs and stay there forever and, if you like, hold spaces. The other issue is the amount of provision that they get. Are they getting their statutory rights for 25 hours and so on?
>
> "A wider issue, which applies to PRUs and alternative pathways, is that schools still maintain responsibility for those children and their progress. Sometimes the interface between schools and, let us say, pupil referral units is not as strong as it needs to be because the school still has an ongoing commitment to that child; that is the same in relation to pathways as well. Sometimes, there is not sufficient dialogue around the needs of the child. I think that the child is the victim - the casualty - at the end of that process, or lack of it."[93]

177. Fel y nodwyd uchod, yn ei dystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Gweinidog at ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Caeredin i ymchwilio i'r broses gwaharddiadau o'r ysgol a hefyd sut y caiff darpariaeth addysg y tu allan i ysgolion ei chyflenwi, ei chynllunio a'i chomisiynu.

**Barn y Pwyllgor: Darpariaeth EOTAS**

178. Creodd y dystiolaeth a glywsom am brinder difrifol o ran darpariaeth EOTAS a'r awgrym bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn anghyson ac yn anghyfartal, gryn argraff ar y Pwyllgor. Yn yr un modd, mae'n peri pryder bod Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud bod y sefyllfa o ran EOTAS yn un ofnadwy.  Gall plant sy'n cael darpariaeth EOTAS fod ymhlith y rhai sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried hyfywedd a manteision datblygu a chomisiynu darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) ar sail ranbarthol ac, o bosibl, ar sail Cymru gyfan.**

[93] Cofnod y Trafodion [paragraff 202], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

179. Mae ymchwil Prifysgol Caeredin yn tynnu sylw at nifer o faterion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor ac sy'n peri pryder iddo. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod gan bron 90 y cant o ddisgyblion mewn darpariaeth EOTAS anghenion addysgol arbennig ac, o'r rheiny, roedd 40 y cant yn cael eu haddysg mewn unedau cyfeirio disgyblion. Roedd hawl gan bron 70 y cant o ddisgyblion EOTAS i gael prydau ysgol am ddim ac roedd 75 y cant ohonynt yn fechgyn. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag ansawdd y cwricwlwm mewn rhai EOTAS; ansawdd gwael a safleoedd anaddas rhai EOTAS; a'r pryderon a fynegwyd gan rai oedolion a gymerodd ran yn yr ymchwil am y defnydd gormodol a wneir o gyfyngiadau ac ynysu cyfyngol fel cosbau. Nodwn hefyd fod yr ymchwil yn dangos nad yw disgyblion EOTAS wedi cael eu hailintegreiddio i mewn i ysgolion prif ffrwd yn gyffredinol.

180. Ceisiodd ein hymchwiliad dystiolaeth ar amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i bresenoldeb ac ymddygiad ac o fewn yr amser a oedd ar gael i ni, ni fu modd i ni dalu sylw penodol i rai o'r agweddau ar EOTAS y mae gan Aelodau ddiddordeb penodol ynddynt. Ar ôl ystyried ymchwil Prifysgol Caeredin yn llawn, bydd y Pwyllgor hwn yn ceisio tystiolaeth bellach ar ddarpariaeth EOTAS gan gynnwys darpariaeth a wneir drwy Unedau Cyfeirio Disgyblion.

### Nifer yr oriau y dylid eu darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd

181. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid anelu at ddarparu addysg llawn amser i bob disgybl 15 diwrnod ar ôl iddo gael ei wahardd, a hynny'n barhaol neu am gyfnod penodol. Mae llawn amser yn golygu cynnig addysg dan oruchwyliaeth neu weithgarwch arall sy'n cyfateb i'r hyn a gynigir gan ysgolion prif ffrwd yn yr ardal, hy: Cyfnod Allweddol 1: 21 awr; Cyfnod Allweddol 2: 23.5 awr; Cyfnod Allweddol 3/4: 24 awr; a Chyfnod Allweddol 4 (Bl 11): 25 awr. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig gan NAHT ac ASCL at bryderon ynghylch amrywiadau yn nifer yr oriau y disgwylir i ddisgyblion EOTAS fynychu sefydliadau'n ffurfiol, tra'u bod yn parhau i fod mewn addysg llawn amser yn swyddogol. Dywedodd SNAP Cymru wrthym:

> "When they are excluded, they are entitled to 25 hours of education a week, but it does not happen. Most of the time, they receive five hours a week if they are lucky."[94]

182. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym:

[94] Cofnod y Trafodion [paragraff 273], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "If we have that level of evidence, then we need to take action on it. We clearly have additional work going on ourselves, through the University of Edinburgh study".[95]

183. Canfu ymchwil Prifysgol Caeredin fod y ddarpariaeth addysg yn amrywio rhwng awdurdodau lleol o ddwy awr y dydd i'r 25 awr lawn bob wythnos.

**Barn y pwyllgor: Nifer yr oriau y dylid eu darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd**

184. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw plant a phobl ifanc yn cael yr addysg lawn y mae hawl ganddynt i'w chael. Yn aml, rhieni fydd y brif ffynhonnell o dystiolaeth nad yw disgyblion yn cael yr hyn y mae hawl ganddynt iddo a nodwn fod rhieni yn aml yn ddiolchgar i gael unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Weithiau nid yw rhieni yn ymwybodol o hawliau eu plant yn hyn o beth. Gallai darparu cynlluniau datblygu unigol i bob disgybl a gaiff ei wahardd helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfan y mae ganddynt hawl iddo. Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid i'r cyfryw gynlluniau nodi pa gymorth sydd ei angen i ailintegreiddio'r disgybl yn ôl i mewn i ddarpariaeth brif ffrwd a sut y caiff y cymorth hwn ei ddarparu.

**Gwasanaethau Cynnal Ymddygiad**

185. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Barnardo's Cymru:

> "[…] when behaviour support services are good they are fantastic and enable accelerated learning and positive education experiences for children and young people. However, when behaviour support services do not meet the needs of the child or do not work in partnership with parents and carers, the experience of school can become a long negative process."[96]

186. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd Cyngor Sir Ceredigion sylw at y gwaith a wnaed ganddo i sefydlu gwasanaethau cynnal ymddygiad fel rhan o'i strategaeth gwella ysgolion:

> "Mae gan y Strategaeth Cynnal Ymddygiad hynod lwyddiannus brosesau a chymorth ardderchog yn eu lle ar gyfer adnabod pryderon yn gynnar, rhoi cymorth a dulliau ymyrryd graddedig. Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae rhwydweithiau cadarnhaol yn eu lle. Mae'r

[95] Cofnod y Trafodion [paragraff 298], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[96] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB04

> rhain yn darparu cymorth a hyfforddiant effeithiol iawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar lefel y disgybl, yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol....”[97]

187. Ac, yn ei dystiolaeth lafar, dywedwyd:

> “We have trained over 300 school support staff on behaviour support strategies in primary and secondary schools. The other thing that is key in the secondary schools is that we have what we call hafan ac encil, which are seclusion and nurture, which have been fundamental in building capacity, because attendance is a lot to do with nurture. Low-level behaviour problems can be managed by seclusion, so you can then build school capacity to manage those elements. For the really challenging individuals, you need a strong central support service and a flexible alternative curriculum. Without that flexibility and that alternative curriculum, you do not have pathways.”[98]

188. Fel y nodwyd eisoes, er mwyn gwella cysondeb y ddarpariaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau cynnal ymddygiad gael eu datblygu'n strategol, eu goruchwylio a'u hariannu ar lefel ranbarthol.

**Cwnsela mewn Ysgolion**

189. Tynnodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth sylw at y rôl bwysig y gall gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ei chwarae i helpu disgyblion sydd â phroblemau presenoldeb neu ymddygiad. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain fod gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion wedi dangos bod cwnsela wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad y plant a gafodd y gwasanaeth. Dywedodd hefyd fod 85% o blant yn teimlo'n fwy cadarnhaol am fynd i'r ysgol a'u bod yn gallu ymdopi'n well ar ôl cael cymorth cwnsela.

190. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion hefyd fod gwasanaeth cwnsela effeithiol ar gael yn yr ysgol i bob disgybl a bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hategu gan wasanaethau cwnsela am ddim i oedolion yn y gymuned y mae ysgolion yn cyfeirio rhieni atynt pan fo hynny'n briodol.

---

[97] Papur CYP(4)-07-13(p2) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Sir Ceredigion, 27 Chwefror 2013
[98] Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 27 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

191. Yn ei dystiolaeth, rhoddodd SNAP Cymru wybodaeth am amrywiaeth o waharddiadau yr oedd wedi gweithio arnynt. O'r chwe achos a amlinellwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig SNAP Cymru, roedd gan bump ohonynt ryw fath o Angen Ychwanegol. Dywedodd Caroline Rawson wrth y Pwyllgor:

> "We get a lot of exclusions from both primary and secondary schools, more so with children with additional learning needs from primary school than from secondary school, but the pattern is fairly even."[99]

192. Dangosodd bwletin ystadegol Llywodraeth Cymru, Gwaharddiadau o Ysgolion, 2010/11 (Chwefror 2012), fod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyfrif am tua hanner yr holl waharddiadau yn ystod 2010/11.

193. Dywedodd ATL Cymru:

> "Schools require the specialist resources for children with ALNs to stimulate and engage learners. Some members report that their schools are not in a position to be able to provide specialist resources required. Some concern has been expressed that the drive to greater delegation of funding to schools, which we broadly welcome, should be sensitive in regard to its impact on ALN pupils."[100]

194. Hefyd, dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor:

> "We would suggest that behaviour support on a day to day basis for children with additional needs is highly variable between schools and regions. Parents of disabled children often feel that their children are being punished for behaviour that is linked to their disability rather than behaviour which is negative per se."[101]

195. Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod ei adran yn ymwybodol iawn o anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wrth ddatblygu polisïau a chanllawiau. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "We are very alive to it. We have been through a consultation process in relation to additional learning needs and how we take forward our plans for individual learning plans. We plan to legislate in this area in

---

[99] Cofnod y Trafodion [paragraff 252], 21 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[100] Papur CYP(4)-04-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan ATL Cymru, 31 Ionawr 2013
[101] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB04

> due course, and there is extensive discussion among my officials within those departments about this."[102]

**Barn y Pwyllgor: Anghenion dysgu ychwanegol**

196. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, mae proffil y plant a'r bobl ifanc a gaiff eu gwahardd yn peri pryder penodol i'r Pwyllgor gan fod gan dros hanner y disgyblion a gaiff eu gwahardd a bron 90% o ddisgyblion mewn darpariaeth EOTAS anghenion addysgol arbennig yn ôl yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd[103]. Rhaid sicrhau bod y trefniadau cymorth priodol ar waith i gefnogi'r disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion cymorth.

197. Mae'r Pwyllgor wedi nodi cynigion Llywodraeth Cymru, yr ymgynghorwyd arnynt yn 2012[104], i gael gwared ar ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig gan gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol integredig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu lle. Mae'r cynigion yn nodi sut y byddai'r cynlluniau integredig yn gymwys i'r rhai rhwng 0 a 25 oed sy'n perthyn i'r categorïau gwahanol o angen. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cynnwys darpariaethau yn y *Bil Addysg (Cymru)* yn ymwneud â diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ond nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Bil a gyflwynwyd. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd ei swyddogion yn ceisio barn rhanddeiliaid yn yr hydref ac y caiff dogfen ymgynghori ddiwygiedig ei chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn[105].

198. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a chraffu arnynt cyn gynted â phosibl. Nid ymdrinnir â llawer o'r pryderon a amlygwyd yn yr adroddiad o ran presenoldeb ac ymddygiad disgyblion oni fydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â meysydd gwaith allweddol yn ymwneud â'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**Diffyg Cefnogaeth ymhlith Rhieni i Gosbau**

199. Un mater y tynnodd nifer o dystion sylw'r Pwyllgor ato oedd diffyg cefnogaeth gan rieni pan roedd ysgolion wedi rhoi cosbau.

---

[102] Cofnod y Trafodion [paragraff 335], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[103] Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru *Gwaharddiadau o Ysgolion yng Nghymru 2011/12*, 26 Chwefror 2013
[104] Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig
[105] Datganiad Ysgrifenedig - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 'Ymlaen mewn Partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol'

200. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig ATL Cymru:

> "Members report varying levels of parental engagement and support in disciplinary issues. Some note that a few parents are reluctant or even hostile to support the school in its behaviour and discipline policies."[106]

201. Hefyd, nododd cydgyflwyniad NAHT Cymru ac ASCL Cymru:

> "Parents frequently refuse to support the school in the imposition of sanctions, and significant amounts of staff time are wasted having to attempt to negotiate with parents who are unwilling to accept that their child must recognise his/her responsibilities in this regard."[107]

202. Dywedodd Tim Pratt, Pennaeth Ysgol Gyfun Caerllion, wrth y Pwyllgor:

> "As it happens, there is a case in my own school and, this morning, one of my deputies is dealing with a parent who is not prepared for their child to undergo a sanction. It makes it hard for staff to keep the level of discipline that they want when they find that there are challenges that delay the imposition of any sanction."[108]

203. Clywodd y Pwyllgor hefyd, os bydd rhiant yn gwrthod derbyn cosb, fod yn rhaid i athrawon negodi â hwy er mwyn ceisio dod i ryw fath o gyfaddawd, sy'n aml yn cymryd llawer o amser ac ymdrech, ac y dylent fod yn treulio eu hamser yn gwneud pethau eraill.

**Trefniadau Cydweithio**

***Cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol***

204. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod diffyg trefniadau cydweithio i gefnogi ysgolion, er enghraifft, gan y gwasanaethau cymdeithasol a Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

205. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NUT Cymru:

> "The hardest pressed services seem to be Education Psychology and Child and Adolescent Mental Health Services (CAHMS). In the case of CAHMS in particular, in some Local Authorities there is an excessive

---

[106] Papur CYP(4)-04-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan ATL Cymru, 31 Ionawr 2013
[107] Papur CYP(4)-04-13(p5) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NAHT Cymru ac ASCL Cymru, 31 Ionawr 2013
[108] Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

waiting list with unacceptable delays between referrals being made and pupils being seen. Support from Social Services is also an issue. Schools often complain that the feedback they get from Social Services after referrals are made is late, inadequate or non-existent. There is, however, evidence of good practice where schools hold regular multi agency meetings to share ideas and good practice in relation to the provision for individual pupils."[109]

206. Tynnodd Rolant Wynne, UCAC, sylw at faterion yn ymwneud â throsiant staff. Dywedodd:

> "A siarad o brofiad, mae gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o dda, ond mae turnover staff yn aruthrol. Felly, er mwyn cael cydweithio, mae angen rhyw fath o sefydlogrwydd. Efallai bydd gan deuluoedd un gweithiwr cymdeithasol am dri mis ac un arall wedyn. Mae'r system yn torri i lawr oherwydd nad oes cysondeb o ran y staff mewn asiantaethau eraill."[110]

207. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Estyn:

> "Support for attendance works most effectively when local authority officers work closely with schools and a range of partners to share responsibility for improving performance. In those authorities judged to be good or better, effective co-operation between statutory and voluntary partners has led to the establishment of multi-agency and multi-disciplinary teams to focus on the specific needs of learners and their families. In a few cases, this has led to coordinated support and intervention designed to meet identified social and educational needs."

208. Dywedodd David Healey, ATL Cymru, wrth y Pwyllgor am enghraifft o gydweithio llwyddiannus yn ne Gwynedd:

> "[...] it is basically multi-agency working around the child, and the agencies are working so closely together, and have built up such a good level of trust, that they now nominate a single person from whichever agency - and it can be any of them, literally - as the contact with the family, through which all the other agencies feed."[111]

---

[109] Papur CYP(4)-04-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan NUT Cymru, 31 Ionawr 2013
[110] Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[111] Cofnod y Trafodion [paragraff 115], 31 Ionawr 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

209. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd ynghylch y ffordd y mae'r heddlu yn gweithio gydag ysgolion. Tynnodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu (ACPO) Cymru sylw at nifer o fentrau yr oedd ynghlwm wrthynt, gan gynnwys:

- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan - sy'n pennu Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol (SCPO) penodol i bob ysgol;
- Cynllun PUPIL (Pupils Understanding Problems in their Locality) – cynllun lle mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu sgiliau a gwella ymddygiad;
- Model MOSS (Model of Secondary School Support) - Nod y model yw sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng rolau'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol (SCPO) a heddlu yn y gymdogaeth wedi'i ddiffinio'n glir er mwyn darparu cymorth cydlynol effeithiol i ysgolion uwchradd ledled Cymru; Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion;
- Rhaglenni Cyfiawnder Adferol.

210. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

> "All of the above initiatives enable the Police and Partner organisations to focus on the needs of children and their families. This level of support provides opportunities for early intervention and a "case management" approach to individuals, which has a positive impact upon the children and young people they support, in relation to attendance and behaviour."[112]

211. Dywedodd yr Uwcharolygydd Liane Bartlett wrth y Pwyllgor:

> "The all-Wales schools core programme is the envy of colleagues across the water – the face that we are able to access as many schools as we do in a consistent and clear manner. The level of engagement has brought rewards."[113]

212. Aeth yn ei blaen i ddweud, fodd bynnag, ei bod o'r farn bod dal i fod angen agwedd llai plwyfol a mwy o gydweithio rhwng yr heddlu a chymheiriaid o fewn awdurdodau lleol a'r byd addysg er mwyn darparu darlun cyfannol:

[112] Papur CYP(4)-07-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, 27 Chwefror 2013
[113] Cofnod y Trafodion [paragraff 183], 27 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "A school is a community and the neighbourhood policing team members and their local authority colleagues are another community, and they seem to be working in isolation as opposed to being joined up, so there needs to be a better integration of those local services."[114]

### Cysylltiadau â Mentrau eraill Llywodraeth Cymru

213. Tynnodd nifer o dystion sylw at y cyfleoedd y gallai rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf eu darparu o ran gwella cydweithio. Yn adroddiad Achub y Plant, dywedodd yr Athro David Egan:

> "Significant opportunities exist to improve the links between schools and communities in the most disadvantaged parts of Wales through closer working with Flying Start, Families First, Communities First and Community Focused Schools.
>
> The national priority in education to reduce the poverty gap along with the extension of Flying Start, the introduction of Families First and the further development of Communities First provide a unique opportunity to develop a holistic approach within the Welsh Government's Tackling Poverty Strategy that can provide the solution that is required to significantly reduce the impact of poverty on education."[115]

214. Dywedodd ACPO:

> "A number of Local Authorities have meeting structures in place, such as Families First and Team Around the Family, which provides opportunities for partner agencies to raise issues and concerns regarding behaviour and attendance. In order to improve behaviour and attendance figures, it would be advisable to review the approach in any priority area, to ensure that the appropriate structures are in place."[116]

215. A dywedodd Estyn:

---

[114] Cofnod y Trafodion [paragraff 186], 27 Chwefror 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[115] Papur CYP(4)-09-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan yr Athro David Egan, 13 Mawrth 2013
[116] Papur CYP(4)-07-13(p3) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, 27 Chwefror 2013

> "Additional activity that has the potential to have a positive impact on attendance and behaviour is being developed through the Families First programme. The strength of this work often lies in how well agencies coordinate their work with a family. However, this work is not always well connected with school improvement services at a strategic level."[117]

216. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrth y Pwyllgor, er nad oedd unrhyw werthusiad ffurfiol wedi'i gynnal, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb:

> "We have some evidence that young people who have been through the Flying Start programme are more engaged in learning, and we also have some evidence – I would not say that it was good evidence, yet – of parental engagement also being improved through the Flying Start programme."[118]

**Cysylltiadau â'r Trydydd Sector**

217. Clywodd y Pwyllgor gan nifer o dystion am y cyfraniad gwerthfawr y gall sefydliadau trydydd sector ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau o ran presenoldeb ac ymddygiad.

218. Dywedodd Barnardo's Cymru ei fod yn credu y gallai ymreolaeth ysgolion olygu nad ydynt yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael o fewn y trydydd sector:

> "However, once working with schools, communication and joint working with the third sector is seen as positive and there is an improved commitment to achieving the shared outcome of improving opportunities for pupils."[119]

219. Dywedodd YMCA Cymru wrthym:

> "The present arrangements for tackling attendance and behaviour issues across Wales do not in our view appear to have had a significant impact in reducing the numbers of young people presenting with attendance and behavioural issues. We believe a change of policy direction is necessary, which recognises and

---

[117] Papur CYP(4)-06-13(p1) y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Estyn, 21 Chwefror 2013
[118] Cofnod y Trafodion [paragraff 322], 13 Mawrth 2013, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[119] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB04

> promotes the important role which non-formal learning (such as youth work and community work) can play...” a
>
> “Non-formal learning alternatives to formal education cannot normally be provided by schools on their own; by definition the school setting and the pedagogical relationship between teachers and students may well be perceived by the young person as part of “the problem”. However, the third sector in general and YMCA in particular can offer a range of cost-effective non-formal learning programmes and activities which have a track record of delivering positive outcomes for young people such as these.”[120]

220. Yn ei ymateb, cydnabu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bwysigrwydd gwaith ieuenctid a chadarnhaodd y byddai strategaeth genedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yn cael ei llunio.

**Barn y Pwyllgor: Cysylltiadau â'r Trydydd Sector**

221. Mewn perthynas â threfniadau cydweithio, roedd hi'n siomedig i'r Pwyllgor glywed bod diffyg cydweithio rhwng asiantaethau statudol unwaith eto yn llesteirio ymdrechion i roi'r cymorth cywir i blant. Rhaid dileu'r rhwystrau hyn i waith amlasiantaeth effeithiol er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau o ran lefelau presenoldeb a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri problemau yn y dyfodol. Yn anad dim, rhaid i blant yng Nghymru gael y gwasanaethau cyfannol gan amrywiaeth o asiantaethau (pan fo angen) fel y cânt eu cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Clywsom am y cyfraniad gwerthfawr y gall sefydliadau trydydd sector ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau o ran presenoldeb ac ymddygiad. Unwaith eto, rhaid manteisio ar y mewnbwn hwn er mwyn cynyddu'r opsiynau amrywiol ar gyfer darpariaeth addysg o ansawdd a ddylai fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

**Casgliad y Pwyllgor: Presenoldeb ac Ymddygiad**

222. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi nodi meysydd y mae angen i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill weithredu arnynt. Ers i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb gael ei gyhoeddi yn 2008, rhoddwyd llawer o sylw i faterion yn ymwneud â phresenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

---

[120] Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan YMCA Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AB01

223. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r plant a'r bobl ifanc a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiad â ni ac rydym yn ymrwymedig i barhau i roi sylw i faterion sy'n cael cymaint o effaith uniongyrchol ar ddisgyblion unigol a'u teuluoedd.

**Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am y cynnydd araf a thameidiog a wnaed i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb ac ymddygiad er i'r problemau hyn gael eu hystyried a'u dogfennu gan y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol dros nifer o flynyddoedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at yr Ymchwiliad hwn i fonitro cynnydd cyn diwedd y Tymor Cynulliad hwn.**

## Atodiad A - Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1305

| **17 Ionawr 2013** | | |
|---|---|---|
| Yr Athro Ken Reid | | CYP(4)-02-13(p1a)<br>CYP(4)-02-13(p1b)<br>CYP(4)-02-13(p1c)<br>CYP(4)-02-13(p1d) |

| **31 Ionawr 2013** | | |
|---|---|---|
| David Evans | NUT Cymru | CYP(4)-04-13(p1) |
| Rex Phillips, | NASUWT | CYP(4)-02-13(p2) |
| David Healey | ATL Cymru | CYP(4)-02-13(p3) |
| Rolant Wynne | UCAC | CYP(4)-02-13(p4) |
| Anna Brychan<br>Mark Durbin | NAHT Cymru | CYP(4)-02-13(p5) |
| Hugh Davies<br>Tim Pratt | ASCL Cymru | CYP(4)-02-13(p5) |

| **6 Chwefror 2013** | | |
|---|---|---|
| Keith Towler | Comisiynydd Plant Cymru | CYP(4)-05-13(p1) |

| **21 Chwefror 2013** | | |
|---|---|---|
| Ann Keane<br>Simon Brown<br>Meilyr Rowlands | Estyn | CYP(4)-06-13(p1) |
| Caroline Rawson | SNAP Cymru | CYP(4)-06-13(p1) |

| **27 Chwefror 2013** | | |
|---|---|---|
| Ian James<br>Robin Brown | Dinas a Sir Abertawe | CYP(4)-07-13(p1) |
| Arwyn Thomas | Cyngor Sir Ceredigion | CYP(4)-07-13(p2) |
| Yr Uwcharolygydd<br>Liane Bartlett, | Cymdeithas Prif Swyddogion<br>Heddlu Cymru | CYP(4)-07-13(p3) |

| **13 Mawrth 2013** | | |
|---|---|---|
| Yr Athro David Egan | | CYP(4)-09-13(p1)<br>CYP(4)-09-13(p2) |
| Hugh Pattrick<br>Jane Morris | Llywodraethwyr Cymru | CYP(4)-09-13(p3) |
| Leighton Andrews<br>Ruth Conway<br>Kara Richards | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru | CYP(4)-09-13(p4) |

## Atodiad B – Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau canlynol i'r cais am dystiolaeth.
Gellir gweld yr holl ymatebion yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5218

| | |
|---|---|
| AB01 | YMCA Cymru |
| AB02 | GL Education Group |
| AB03 | Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain |
| AB04 | Barnardo's Cymru |
| AB05 | Associated Community Training |

# Atodiad C - Sefydliadau a gymerodd ran mewn Grwpiau Ffocws

Grŵp Canolfan Gwobr Agored Llangefni
Ysgol Uwchradd yng Ngogledd-orllewin Cymru, Blwyddyn 10
Ysgol Gatholig ac Anglicanaidd San Joseff, Wrecsam, Blwyddyn 10
Uned Cyfeirio Disgyblion yr Wyddfid, Llandudno
Ysgol y Pant, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymraeg Teilo Sant, Llandeilo – Blynyddoedd 5 a 6
Llamau, Merthyr Tudful
Llamau, Caerdydd
The Prince's Trust, Caerdydd
SNAP Cymru, Abertawe
Cangen Conwy a Sir Ddinbych - y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol
Voices from Care
Gwasanaeth Swyddogion Lles Ynys Môn
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Blynyddoedd 5 a 6
Grŵp Ieuenctid Datgysylltiedig (Ysgol Gymunedol Glynrhedynog - Rhaglen Camu i Fyny)
Ysgol Gymunedol Glynrhedynog
Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Caerdydd
Ymddiriedolaeth Fferm Amelia